

CRONFA AMODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**DEDDF TRWYDDEDU 2003****CYFLWYNIAD**

1. Mae'r gronfa amodau hon yn ymdrin ag ystod eang o bynciau a allai fod yn berthnasol i ymgeiswyr am drwyddedau safle ac Awdurdodau Cyfrifol a allai fod yn ystyried cyflwyno sylwadau ar geisiadau. Caiff partiön â diddordeb a phreswylwyr lleol neu fusnesau lleol geisio cynnig amodau mewn perthynas â cheisiadau hefyd neu fel modd o fynd i'r afael â phryder a godwyd trwy'r broses adolygu.
2. Caiff ymgeiswyr am dystysgrifau safle clwb addasu unrhyw un o'r amodau a restrir, ond dylent ddisodli unrhyw gyfeiriad at drwydded safle neu ddeiliad trwydded safle â thystysgrif safle clwb.
3. Lle mae amod yn cynnwys cyfarwyddyd i fewnosod unrhyw ffaith, mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei chyflenwi gan yr ymgeisydd.

Diwygiwyd 07/11/2023

AD	HYSBYSEBU
AD01	Bydd deiliad y drwydded safle yn cymryd pob rhagofal rhesymol ac yn arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau na fydd unrhyw weithgarwch trwyddedadwy'n cael ei hysbysebu mewn modd sy'n torri'r gyfraith gyffredinol neu'n achosi niwsans i'r cyhoedd.
AD02	<p>Mewn perthynas â digwyddiadau a hyrwyddir, hynny yw, unrhyw ddigwyddiadau sy'n golygu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn y safle a drefnir gan unigolion heblaw am ddeiliad y drwydded safle neu'r rhai hynny sydd o dan ei reolaeth uniongyrchol, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod cofrestr yn cael ei chynnal mewn llyfr rhwymedig a gedwir at y diben hwnnw. Bydd y gofrestr yn cael ei chadw yn y safle a bydd y goruchwyliwr safle dynodedig (neu ei ddirprwy enwebedig yn ei absenoldeb) yn ei dangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais. Bydd y gofrestr yn cofnodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Dyddiad ac amser y digwyddiad a disgrifiad byr ohono; (ii) Enw'r hyrwyddwr/hyrwyddwyr, hynny yw, yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiad; (iii) Os yw'r hyrwyddwr yn gwmni, ei rif cofrestredig; (iv) Cyfeiriad priodol yr hyrwyddwr; (v) Rhif ffôn cyswllt ar gyfer yr hyrwyddwr

CA CAPASITI, RHEOLAETH A RHEOLI CWSMERIAID	
CA01	Bydd y capasiti cyfan ar gyfer y digwyddiad yn gyfyngedig i (<i>rhowch rif</i>) o bobl. Mae'r terfyn hwn yn cynnwys perfformwyr, gwesteion, staff a swyddogion.
CA02	Ni fydd unrhyw gardiau diogelwch i gael mynediad heblaw am y rhai hynny a roddir i unigolion sy'n gweithio ar y safle ac awdurdodau statudol.
CA03	Mae'n rhaid sefydlu mesurau i sicrhau nad eir yn fwy na'r capasiti ar unrhyw adeg.
CA04	Mae'n rhaid i'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ffigur arfaethedig gael eu cadw yn y safle a bod ar gael ar unwaith ar gais gan unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
CA05	Caniateir mynediad trwy docyn yn unig. Pan gyflwynir y tocyn i gael mynediad, caiff ei gadw gan y trefnwyr.
CA06	Ceir mynediad i'r digwyddiad trwy'r mynedfeydd cymeradwy. Bydd gwarchodwyr yn gweithio wrth y mynedfeydd a byddant yn caniatáu i bobl sydd â thocynnau neu gardiau diogelwch yn unig fynd i mewn i'r ardal gyngerdd.
CA07	Mae'n rhaid rhoi gweithdrefnau cofnodedig ar waith i sicrhau nad yw gorlenwi (a allai achosi anaf yn sgil mathru) yn digwydd mewn unrhyw ran o'r safle.

CA08	<p>Bydd y deiliad trwydded yn pennu capasiti meddianwyr y safle ar sail asesiad(au) risg cofnodedig.</p> <p>(i) Mae'n rhaid i'r asesiad(au) risg ystyried yr holl ffactorau perthnasol gan gynnwys lle, modd o fynd i mewn ac allan, darpariaeth tai bach, gallu'r lloriau i gynnal pwysau, awyru, ac ati, ac mae'n rhaid ei adolygu'n rheolaidd/eu hadolygu'n rheolaidd, ac os bydd amgylchiadau'n newid</p> <p>(ii) Lle y bo'r angen, mae'n rhaid pennu lefelau meddiannaeth ar wahân ar gyfer rhannau gwahanol o'r safle;</p> <p>(iii) Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau ei fod yn ymgynghori â Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd Cyngor Sir Caerffili ac unrhyw awdurdod arall perthnasol (er enghraifft y Gwasanaeth Tân ac Achub o ran cyfyngiadau gwacáu mewn argyfwng) mewn perthynas â'r ffigur meddiannaeth. Bydd cadarnhad o ymgynghori ac unrhyw ganlyniadau'n ffurfio rhan annatod o'r asesiad risg y seilir y ffigur capasiti arno;</p> <p>(iv) Bydd y ffigur capasiti a gynigir gan ddeiliad y drwydded safle'n cael ei roi i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn i'r drwydded ddechrau;</p> <p>(v) Mae'n rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad eir yn fwy na'r capasiti ar unrhyw adeg;</p> <p>(vi) Mae'n rhaid i'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ffigur arfaethedig gael eu cadw yn y safle a bod ar gael ar unwaith ar gais gan unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl;</p> <p>(vii) Bydd deiliad y drwydded safle'n adolygu, diweddar a diwygio unrhyw asesiadau risg yn rheolaidd, ac yn enwedig ar ôl unrhyw newidiadau i gynllun neu weithrediad y lleoliad. Bydd y cyfryw adolygiadau ac ati'n cael eu cofnodi'n llawn ac yn ffurfio rhan annatod o'r asesiad risg.</p>
CA09	<p>Lle y bo'r angen, mae'n rhaid pennu lefelau meddiannaeth ar wahân ar gyfer rhannau gwahanol o'r safle. Mae'n rhaid rhoi'r ffigur capasiti arfaethedig i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn (<i>rhowch gyfnod</i>) o'r dyddiad (<i>rhowch ddyddiad gwrandawriad neu ddyddiad rhoi trwydded</i>).</p>
CA10	<p>Ni cheir mynediad neu ailfynediad i'r safle ar ôl (<i>rhowch yr awr derfynol ar gyfer mynediad</i>) o'r gloch. Bydd arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn eglur wrth bob allanfa o'r safle yn rhoi gwybod i gwsmeriaid bod ailfynediad i'r safle ar ôl (<i>rhowch yr awr derfynol ar gyfer ailfynediad</i>) o'r gloch ar unrhyw fore wedi'i wahardd a bod y gwaharddiad hwn hefyd yn berthnasol i bobl sy'n dymuno gadael y safle i ysmegu.</p>
CA11	<p>Cyfyngir y feddiannaeth i (<i>rhowch rif</i>) o bobl yn y safle. (<i>gallai terfynau fod yn briodol ar gyfer ystafelloedd neu loriau gwahanol yn y safle hefyd</i>). Mae'r ffigur meddiannaeth yn cynnwys staff, perfformwyr a'r cyhoedd. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau bod mesurau rheoli priodol ar waith i sicrhau nad eir yn fwy na'r ffigur meddiannaeth ar unrhyw adeg. Bydd mesurau rheoli priodol yn cael eu sefydlu i sicrhau nad eir yn fwy na ffigur meddiannaeth y safle/ardaloedd penodedig ar unrhyw adeg.</p>

CA12	Bydd systemau llaw ac awtomatig ar gyfer rheoli niferoedd yn cael eu gosod, eu defnyddio a'u cynnal yn y safle ar bob adeg pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd.
CA13	Bydd deiliad y drwydded safle'n cefnogi unrhyw fenter marsialiaid tacsis sydd ar waith yn ardal y safle. Gallai hyn gynnwys unrhyw gymorth ariannol teg a chymesur gan ddeiliad y drwydded safle.
CA14	Bydd y safle'n gweithredu yn unol â'r (<i>rhowch enw'r polisi e.e. Iechyd a Diogelwch, asesiad risg tân, a'r dyddiad y'i cyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu</i>) neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig sydd ar waith o bryd i'w gilydd. Bydd deiliad y drwydded safle'n rhoi o leiaf saith diwrnod o rybudd i'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw ddiwygiad arfaethedig i'r polisi uchod (gan gynnwys ei ddileu neu ei ddisodli) a bydd yn rhoi copi o unrhyw bolisi diwygiedig i'r Awdurdod Trwyddedig cyn i'r newid gael ei weithredu yn y safle. Bydd copi o'r polisi sy'n gyfredol ar y pryd yn cael ei roi i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais.

CC Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)	
CC01	<p>Bydd CCTV yn cael ei ddefnyddio yn y safle.</p> <p>(i) Lle y bwriedir gosod, ymestyn neu amnewid system CCTV, caiff hynny ei wneud i safon briodol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Trwyddedu mewn ymgynghoriad â'r Heddlu. Lle y bwriedir gosod system CCTV, bydd yn gwbl weithredol erbyn (<i>rhowch ddyddiad</i>). Lle y bwriedir amnewid neu ymestyn systemau CCTV sydd eisoes yn bodoli, bydd yr amnewidiad neu'r ymestyniad i'r system yn cael ei gwblhau erbyn (<i>rhowch ddyddiad</i>) a bydd y system yn gwbl weithredol ar y dyddiad hwnnw;</p> <p>(ii) Bydd yr offer CCTV yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr gweithio da ac yn recordio'n barhaus pan fydd gweithgarwch trwyddedadwy'n digwydd ac am gyfnod o ddwy awr wedi hynny;</p> <p>(iii) Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod delweddau o'r CCTV yn cael eu cadw am gyfnod o 31 diwrnod. Gallai'r cyfnod hwn ar gyfer cadw delweddau gael ei adolygu fel y bo'n briodol gan yr Awdurdod Trwyddedu;</p>

	<p>(iv) Bydd yr amser a'r dyddiad cywir yn cael eu dangos ar y recordiad a'r sgrin delwedd amser real;</p> <p>(v) Os bydd yr offer CCTV (gan gynnwys unrhyw unedau symudol a ddefnyddir yn y safle) yn methu, bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau bod y goruchwyliwr safle dynodedig, neu unigolyn cyfrifol arall yn ei absenoldeb, yn rhoi gwybod ar lafar i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar y gofrestr adrodd am ddigwyddiadau ar yr un pryd a bydd yn cynnwys yr amser, y dyddiad a'r dull adrodd ac i bwy yr adroddwyd y wybodaeth. Bydd offer sy'n methu yn cael ei atgyweirio neu ei amnewid cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a heb oedi diangen. Rhoddir gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu pan fydd diffygion wedi'u cywiro;</p> <p>(vi) Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod aelodau staff hyfforddedig ar gael yn ystod oriau trwyddedadwy i allu atgynhyrchu a lawrlwytho delweddau CCTV mewn fformat symudadwy ar gais gan unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl;</p> <p>(vii) Bydd arwyddion eglur yn rhoi gwybod bod offer CCTV yn cael ei ddefnyddio ac yn recordio yn y safle yn ystod (<i>rhowch yr oriau</i>) o'r gloch.</p>
CC02	Bydd o leiaf (<i>rhowch rif</i>) o gamerâu pen symudol (robo-gamerâu) yn cael eu defnyddio yn y safle o (<i>rhowch yr awr ddechrau</i>) o'r gloch hyd yr adeg cau ar bob dydd pan fo'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd un camera o'r fath yn cael ei leoli'n barhaol wrth y fynedfa ac ym mhob (<i>rhowch fannau penodedig lle y bo'n briodol</i>).
CC03	Bydd y system CCTV yn cynnwys holl ardaloedd allanol y safle.
CC04	Bydd cynllun o'r safle'n cael ei anodi i ddangos lleoliad yr holl gamerâu CCTV yn y safle, a bydd y cyfryw gynllun yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu erbyn (<i>rhowch ddyddiad</i>). Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddar'u rheolaidd yn achos unrhyw newidiadau i leoliad y cyfryw gamerâu.
CC05	Bydd camerâu CCTV yn monitro'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan gwsmeriaid y safle, gan gynnwys unrhyw ardal ysmegu allanol, er mwyn monitro niferoedd ac atal trosedd ac anhrefn.
CC06	Bydd y CCTV sy'n monitro unrhyw ardal ysmegu ddynodedig yn cael ei osod yn llawn ac yn gwbl weithredol cyn y gellir defnyddio'r ardal ysmegu.

CE DANGO SIADAU SINEMATOGRAFFIG / FFILM

CE01	<p>Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r amgylchiadau pryd y gallai'r amodau hyn fod yn berthnasol h.y. sinema prif ddefnydd neu sgriniau fideo mewn tafarnau a chlybiau.</p> <p>Ni fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos oni bai –</p> <p>(i) ei bod wedi derbyn tystysgrif 'U', 'PG', '12A', '15' neu '18' gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain; neu</p>
	<p>(ii) ei bod yn ffilm newyddion gyfredol, nad yw wedi'i chyflwyno i Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain; ni cheir dangos unrhyw ffilm â dosbarthiad R18 yn y safleoedd hyn.</p>
CE02	<p>Ni chaiff unrhyw un sy'n edrych yn iau na deunaw mlwydd oed gael mynediad i unrhyw arddangosfa lle y bwriedir dangos unrhyw ffilm sydd wedi derbyn tystysgrif '18' gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid glynu wrth bolisi "Herio 25" a mynnu bod prawf oedran dilys yn cael ei ddangos cyn rhoi mynediad.</p>
CE03	<p>Ni chaiff unrhyw un sy'n edrych yn iau na phymtheg mlwydd oed gael mynediad i unrhyw arddangosfa lle y bwriedir dangos unrhyw ffilm sydd wedi derbyn tystysgrif '15' gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain.</p>
CE04	<p>Ni chaiff unrhyw un sy'n edrych yn iau na deuddeg mlwydd oed gael mynediad i unrhyw arddangosfa lle y bwriedir dangos unrhyw ffilm sydd wedi derbyn tystysgrif '12A' gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain oni bai ei fod yng nghwmni oedolyn.</p>
CE05	<p>Bydd gosodiad neu ddatganiad ysgrifenedig o delerau unrhyw dystysgrif a roddwyd gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain yn cael ei ddangos ar y sgrin yn syth cyn dangosiad unrhyw ffilm y mae'n berthnasol iddi, a bydd y gosodiad neu'r datganiad yn cael ei ddangos yn ddigon hir ac yn ddigon mawr iddo gael ei ddarllen o unrhyw sedd yn yr awditoriwm.</p>
E06	<p>Bydd hysbysiad yn cael ei ddangos mewn man amlwg ym mhob mynedfa gyhoeddus pryd bynnag y bo'r safle ar agor i'r cyhoedd, sy'n nodi ar ffurf tabl ac mewn llythrennau a ffigurau bras ac eglur –</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Teitl pob ffilm sydd i'w dangos y diwrnod hwnnw, heblaw am ragluniau a ffilmiau sy'n para llai na phum munud; (ii) Amserau dechrau bras pob ffilm o'r fath; (iii) Pa un a yw pob ffilm o'r fath wedi derbyn tystysgrif 'U', 'PG', '12A', '15' neu '18' gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain; ac (iv) Effaith y cyfryw dystysgrifau 'U', 'PG', '12A' neu '18' mewn perthynas â derbyn unigolion iau na deunaw mlwydd oed.

CE07	<p>Ni fydd yr hysbysiad yn llai na 36 modfedd o ran dimensiynau a bydd yn dilyn y ffurf a nodir isod, gyda'r blaenlythrennau gwahaniaethol 'U', 'PG', '12A', '15' a '18' heb fod yn llai nag 1½ modfedd o uchder.</p> <p>CATEGORI 'U': Wedi'i phasio i'w dangos i bawb.</p> <p>CATEGORI 'PG': Wedi'i phasio i'w dangos i bawb, ond cynghorir rhieni bod y ffilm yn cynnwys rhai golygfeydd a allai fod yn anaddas i blant ifanc.</p> <p>CATEGORI '12A': Wedi'i phasio'n addas i'w dangos i bobl deuddeg oed a hŷn yn unig. Rhaid i blant iau na 12 oed fod yng nghwmni oedolyn.</p> <p>CATEGORI '15': Wedi'i phasio'n addas i'w dangos i bobl pymtheg oed a hŷn yn unig.</p> <p>CATEGORI '18': Wedi'i phasio'n addas i'w dangos i oedolion yn unig. Pan fydd rhaglen yn cynnwys ffilm '18', ni cheir rhoi mynediad i unrhyw bobl iau na deunaw oed.</p>
CE08	<p>Bydd natur unrhyw dystysgrif a roddwyd i ffilm gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain yn cael ei nodi'n eglur gan y ffigur 'U', 'PG', '12A', '15' neu '18'</p>

	<p>mewn unrhyw hysbyseb ar gyfer y ffilm a arddangosir yn y safle.</p>
CE09	<p>Ni fydd unrhyw hysbyseb a arddangosir yn y safle ar gyfer ffilm sydd i'w dangos yn y safle yn portreadu fel golygfa neu ddigwyddiad yn y ffilm unrhyw olygfa neu ddigwyddiad nad yw wedi'i chynnwys/gynnwys yn y ffilm fel y'i hardystiwyd gan Fwrdd Dosbarthiadau Ffilm Prydain neu y'i cymeradwywyd i'w harddangos gan yr Awdurdod Trwyddedu, yn ôl y digwydd.</p>
CE10	<p>Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i drwyddedai'r safle yn gwrthwynebu hysbyseb ar y sail, pe byddai'n cael ei harddangos, y byddai'n tramgwyddo yn erbyn chwaeth neu wedduster neu'n debygol o annog neu ysgogi trosedd neu arwain at anhrefn neu fod yn sarhaus ym marn y cyhoedd, ni fydd yr hysbyseb honno'n cael ei harddangos yn y safle ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Trwyddedu.</p>
CE11	<p>Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i drwyddedai'r safle yn gwahardd arddangos ffilm ar y sail ei bod yn cynnwys deunydd a fyddai, pe byddai'n cael ei arddangos, yn tramgwyddo yn erbyn chwaeth neu wedduster neu'n debygol o annog neu ysgogi trosedd neu arwain at anhrefn neu fod yn sarhaus ym marn y cyhoedd, ni fydd y ffilm honno'n cael ei harddangos yn y safle ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Trwyddedu.</p>
CE12	<p>Os yw'r Awdurdod Trwyddedu'n gofyn i'r trwyddedai ddangos iddynt unrhyw ffilm y mae'n ei dangos neu'n bwriadu ei dangos, bydd yn gwneud hynny ar y cyfryw adeg ac i'r cyfryw unigolion ag a gyfarwyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu.</p>

CE13	Ni chaniateir i unrhyw unigolyn sy'n feddw ddod i mewn i'r safle trwyddedig nac aros ynddo. Bydd pob unigolyn yn y safle y mae'r trwyddedai o'r farn y gallai eu hymddygiad arwain at unrhyw fath o dor-heddwch, cynnwrf neu anhrefn, yn cael eu taflu allan ar unwaith. Y trwyddedai fydd yn gyfrifol am gynnal trefn dda ac ymddygiad gweddus yn y safle trwyddedig, a bydd ef ei hun a'i ystlyswyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddal a diarddel unrhyw droseddwr.
CE14	Bydd golau gwyn arbennig yn cael ei osod ar bob llawr o'r neuadd, yn unol â chymeradwyaeth y Prif Gwnstabl, a fydd yn cael ei weithredu gan switsh ym mlwch y gweithredwr, a chan switsh neu switshis a osodwyd mewn safle cymeradwy yn y neuadd. Defnyddir y golau hwn i rybuddio ystlyswyr bod argyfwng yn bodoli ac, wrth dderbyn yr arwydd, bydd ystlyswyr yn cymryd camau ar unwaith i reoli symudiadau'r gynulleidfa a sicrhau bod y neuadd yn cael ei chlirio'n drefnus ac yn ddiogel.
<i>Amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy wrth ddangos ffilmiau 'CYFYNGEDIG (18)'</i>	
CE15	Ni cheir dangos unrhyw ffilmiau yn y categori 'CYFYNGEDIG (18)' ac eithrio mewn sinema sy'n gweithredu fel clwb yn unol â'r amodau a amlinellir isod.
CE16	Ni chaiff unrhyw glwb sy'n dangos ffilmiau yn y categori 'CYFYNGEDIG (18)' weithredu mewn cyfadeilad aml-sgrîn tra bod unigolion iau na 18 oed yn cael eu derbyn i unrhyw berfformiad a roddir yn y cyfadeilad hwnnw.
CE17	Gellid caniatáu eithriad i'r amod uchod dim ond os yw'r clwb sinema a'r holl gyfleusterau sy'n agos iddo, gan gynnwys cynteddau, tai bach a manau lluniaeth, wedi'u gwahanu'n llwyr a bod modd eu cyrraedd trwy fynedfa a swyddfa docynnau ar wahân yn unig.
CE18	Bydd yr holl gofrestrau aelodau a llyfrau ymwelwyr ar gyfer eu gwesteion ar gael i'w harchwilio ar unwaith gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ystod unrhyw berfformiad, neu ar unrhyw adeg arall resymol.
CE19	Ni cheir gwerthu tocynnau i unigolion heblaw am aelodau mewn unrhyw amgylchiadau.
CE20	Bydd hysbysebion blaen tŷ ar gyfer ffilmiau yn y categori 'CYFYNGEDIG (18)' yn nodi'r categori arddangos a roddwyd iddynt, ond ni fyddant yn cynnwys unrhyw ddeunydd darluniadol na gwybodaeth arall am enwau perfformwyr neu'r plot. Bydd hysbysebion papur newydd ar gyfer dangosiad wedi'u cyfyngu i gynnwys teitlau'r cyfryw ffilmiau yn y golofn rhestr ffilmiau ynghyd â'r categori arddangos a roddwyd iddynt.
CE21	Ni cheir cyflogi unrhyw bobl iau na 18 oed mewn unrhyw swyddogaeth mewn safle trwyddedig sy'n gweithredu fel clwb sinema sy'n dangos ffilmiau yn y categori 'CYFYNGEDIG (18)'.

CE22	Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan yr Awdurdod Trwyddedu, ni cheir yfed, cyflenwi na gwerthu unrhyw ddiodydd meddwol yn y safle.
CE23	<p>Bydd rheolau aelodaeth ar gyfer clybiau sinema yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Aelodau a'u gwesteion yn unig a gaiff fynychu dangosiadau lluniau symudol a ddsbarthwyd yn y categori 'CYFYNGEDIG (18)'; (ii) Bydd aelodaeth ar agor i bobl 18 oed o leiaf o'r ddau ryw. Bydd ceisiadau am aelodaeth, gan gynnwys enw a chyfeiriad, yn ysgrifenedig, wedi'u llofnodi gan yr ymgeisydd ac, os bernir bod angen hynny, bydd ceisiadau o'r fath yn darparu geirdaon boddhaol a phrawf oedran; (iii) Ni cheir derbyn unrhyw unigolyn yn aelod hyd nes bod 24 awr o leiaf wedi mynd heibio ers i'r cyfryw gais ysgrifenedig gael ei gymeradwyo gan y perchenogion trwyddedig; (iv) Bydd gan aelod yr hawl ar unrhyw un diwrnod i ddod â dim mwy nag un gwestai gydag ef, a bydd enw'r gwestai'n cael ei gofnodi yn y llyfr ymwelwyr a'i gydlofnodi gan yr aelod; (v) Bydd tocynnau'n cael eu gwerthu i aelodau yn unig ar ôl dangos cerdyn aelodaeth, a bydd aelodau'n llofnodi cydnabyddiaeth am y tocyn neu'r tocynnau a roddwyd, os bydd angen; (vi) Bydd cardiau aelodaeth yn bersonol i'r aelod ac ni fydd modd eu trosglwyddo i unrhyw unigolyn arall; (vii) Ni fydd modd trosglwyddo tocynnau aelodaeth na thocynnau gwestai; (viii) Ni chaiff unrhyw aelod gyflwyno fel gwestai unrhyw unigolyn iau na 18 oed nac unrhyw unigolyn y gwrthodwyd ei gais am aelodaeth; (ix) Bydd unrhyw aelod neu westai'n dangos prawf o bwy ydyw, neu brawf o'i oedran, neu brawf o unrhyw fanylion unrhyw westai os bydd y
	<p>perchenogion yn mynnu hynny;</p> <ul style="list-style-type: none"> (x) Bydd tanysgrifiad blynyddol yn cael ei bennu ar gyfer y clwb a fydd yn para am 12 mis o'r dyddiad cofrestru; (xi) Ni fydd tanysgrifiad yn rhoi'r hawl i aelod o'r clwb fynychu clybiau eraill a gynhelir gan yr un rheolwyr oni bai y cafwyd caniatâd o flaen llaw gan yr Awdurdod Trwyddedu. (xii) Wrth gael mynediad, bydd aelod yn rhwym wrth reolau'r clwb ac unrhyw ddeddfau lleol a rheoliadau a wnaed yn unol â hwy.
CE24	At ddibenion yr amodau hyn, mae 'ffilm' yn golygu unrhyw ddangosiad lluniau symudol a gynhyrchwyd heblaw trwy dderbyn ac arddangos yn gyfamserol raglenni teledu a ddarlledir gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig neu'r Awdurdod Darlledu Annibynnol neu raglenni a gynhwysir mewn gwasanaeth rhaglenni cebl sydd wedi'i drwyddedu, neu nad oes angen iddo gael ei drwyddedu, o dan Adran 4 Deddf Cebel a Darlledu 1984.

CL NENFYDAU	
CL01	Bydd yr holl nenfydau a gwaith plastro addurnol yn y rhannau hynny o'r safle y derbynnir y cyhoedd iddynt yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan unigolyn cymwysedig a benodwyd gan feddiannwr y safle, neu ar ei ran, heb gost i'r Awdurdod Trwyddedu, a bydd tystysgrif yn ymwneud â chyflwr y cyfryw nenfydau a gwaith plastro'n cael ei hanfon i'r Awdurdod Trwyddedu ar ôl pob archwiliad. Bydd y cyfryw archwiliadau'n cael eu cynnal ym mhresenoldeb un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.
CL02	Bydd y dystysgrif y mae'n ofynnol iddi gael ei chyflwyno, yn unol â pharagraff blaenorol yr amodau hyn, yn dilyn y ffurf ganlynol:- “Rwyf i/Rydym ni yn tystio drwy hyn fod y nenfydau a'r gwaith plastro addurnol dros bob rhan o'r safle y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt yn (<i>rhowch enw'r safle</i>) wedi'u harchwilio ar (<i>rhowch y dyddiad</i>) a bod yr archwiliadau hyn yn dangos bod y cyfryw nenfydau a gwaith plastro, i'r graddau y gellir canfod trwy archwiliad gweledol neu archwiliad arall, yn ymddangos fel petaent mewn cyflwr diogel ar y dyddiad hwn”. Llofnod..... Cynghorwr/Cynghorwyr Technegol Cymwys y Trwyddedai/Trwyddedigion. Dyddiad..... Rwyf i/Rydym ni yn tystio drwy hyn y bûm/buom yn bresennol yn yr archwiliad y cyfeirir ato yn y dystysgrif hon a bod yr archwiliad wedi'i gynnal yn drylwyr. Llofnod..... Cynghorwr/Cynghorwyr Technegol yr Awdurdod Trwyddedu. Dyddiad.....
CL03	Mewn unrhyw achos, bydd yn briodol i'r Awdurdod Trwyddedu fynnu bod tystysgrif yn cael ei darparu ynglŷn â chyflwr diogel y nenfydau a'r gwaith plastro uchod ar y cyfryw gyfnodau amlach na phob pum mlynedd ag y mae'n barnu sy'n angenrheidiol.

CV PLANT A PHOBL AGORED I NIWED	
CV01	Bydd pob plentyn yn gadael y safle erbyn (<i>rhowch yr amser</i>) o'r gloch.

CV02	<p>Ni chaiff unrhyw unigolyn iau nag un ar bymtheg oed fod ym mar y safle trwyddedig yn ystod yr oriau a ganiateir oni bai bod un o'r canlynol yn berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Ei fod yn blentyn deiliad y drwydded safle; (ii) Ei fod yn byw yn y safle, ond nid yn cael ei gyflogi yno; (iii) Ei fod yn y bar dim ond er mwyn mynd trwyddo i gyrraedd rhan arall o'r safle, nad yw'n far, ac nad oes modd arall cyfleus o fynd i mewn neu allan ohoni; (iv) Bod y bar mewn ystafelloedd lluniaeth rheilffordd neu safle arall a adeiladwyd, a ffitiwyd ac a fwriadwyd ei ddefnyddio'n ddilys ar gyfer unrhyw ddiben y mae dal y drwydded yn ategol iddo. <p><i>Yn yr amod hwn, mae "bar" yn cynnwys unrhyw fan a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i yfed diod feddwol. Ond nid yw ardal yn far pan ei bod yn arferol iddi gael ei gwahanu, a'i bod yn cael ei gwahanu, i weini prydau wrth fwrdd a bod diod feddwol yn cael ei gwerthu neu ei chyflenwi i bobl yn ategol i'w prydau wrth fwrdd yn unig;</i></p> <ul style="list-style-type: none"> (v) Ei fod yn y bar yng nghwmni unigolyn 18 oed neu hŷn.
CV03	<p>Mae'n rhaid i bob stôf neu le tân agored gael eu diogelu pan fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn atal anaf i aelodau'r cyhoedd sy'n agored i niwed, fel plant, trwy ddefnyddio gardiau tân addas, er enghraifft.</p>
CV04	<p>Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.</p>
CV05	<p>Bydd diod feddwol yn cael ei gwerthu a'i chyflenwi i gwsmeriaid sy'n eistedd i gael pryd wrth fwrdd yn unig, fel ategolyn i'r pryd bwyd hwnnw.</p>
CV06	<p>Os bydd derbynnydd danfoniad alcohol neu gasgliad neu ddanfoniad pryd cludfwyd, sy'n cynnwys alcohol, yn edrych yn iau na 25 oed, gofynnir am brawf adnabod ffotograffig cydnabyddedig cyn trosglwyddo unrhyw ddiod feddwol. Bydd prawf oedran derbyniol yn cynnwys cerdyn adnabod sy'n dangos llun o'r cwsmer, ei ddyddiad geni a marc holograffig neu fesur diogelwch annatod. Byddai prawf adnabod addas yn cynnwys cerdyn prawf oedran a gymeradwywyd gan PASS, trwydded yrru gyda llun a phasbort.</p>
CV07	<p>Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod polisïau addas yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch unigolion agored i niwed, fel pobl anabl, ar y safle tra bod y gweithgarwch trwyddedadwy'n cael ei gynnal.</p>
CV08	<p>Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod mesurau addas yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch pobl anabl. Dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw agwedd benodol ar gynllun y safle neu natur y gweithgareddau a allai achosi peryglon arbennig i bobl anabl.</p>

CV09	<p>Caniateir i bobl ag anableddau eistedd yn yr awditoriwm mewn cadeiriau olwyn, heblaw am gadeiriau a yrrir gan betrol, yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:</p> <p>(i) Bydd rhan o'r awditoriwm a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Trwyddedu'n cael ei neilltuo ar gyfer cadeiriau olwyn;</p> <p>(ii) Bydd y rhan o'r awditoriwm a neilltuwyd felly yn darparu mynediad</p>
	<p>rhwydd ac uniongyrchol i'r awyr agored trwy allanfa sy'n ychwanegol at unrhyw allanfa a ddarperir i'w defnyddio gan aelodau eraill y gynulleidfa;</p> <p>(iii) Pan fydd angen i unigolyn ag anableddau gael cymorth gan gynorthwy-ydd, bydd y cynorthwy-ydd hwnnw'n cael ei roi i eistedd wrth law ac yn gallu gwthio'r gadair olwyn, gyda'r sawl sy'n eistedd ynddi, i'r awyr agored mewn argyfwng, heb anhawster;</p> <p>(iv) Ni chaniateir cadeiriau olwyn a yrrir gan betrol yn y safle.</p>
CV10	<p>Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod pob stôf neu le tân agored wedi'u diogelu pan fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn atal anaf i aelodau'r cyhoedd sy'n agored i niwed, fel plant, trwy ddefnyddio gardiau tân addas, er enghraifft.</p>
CV11	<p>Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer unrhyw adloniant neu wasanaethau i oedolion, gweithgareddau neu fathau eraill o adloniant neu faterion sy'n ategol i ddefnyddio'r safle a allai arwain at bryder mewn perthynas â phlant, y mae defnyddiau gwaharddedig yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, noethni neu led-noethni, ffilmiau ar gyfer grwpiau oedran cyfyngedig neu unrhyw adloniant perthnasol (o fewn ystyr y drydedd atodlen i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, ac eithrio lle y caniateir hynny'n benodol o dan drwydded neu hawliidiad a ganiatawyd neu a roddwyd o dan y ddeddfwriaeth honno.</p>
CV12	<p>Ni fydd unrhyw ddigwyddiadau i bobl iau na 18 oed.</p>
CV13	<p>Bydd deiliad y drwydded safle'n gyfrifol am sicrhau bod unigolyn penodedig â gofal y safle pan fydd adloniant rheoledig yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau diogelwch pobl anabl yn y safle.</p>
CV14	<p>Bydd system atgoffa'n cael ei gosod mewn tiliau i gynorthwyo staff trwy eu hatgoffa i ofyn am brawf adnabod wrth werthu.</p>
CV15	<p>Bydd dirprwyaeth awdurdodiadau gofnodedig i werthu alcohol yn cael ei chynnal yn y safle a bydd ar gael ar gais gan un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.</p>

DA GWEIT HREDU MEWN PERTHYNAS Â CHYFFURIAU

DA01	Lle y ceir amheuaeth resymol bod cyffuriau, a ddiffinnir fel sylweddau rheoledig Dosbarth A, B neu C o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau, neu arfau'n cael eu cario, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod dillad allanol, pocedi a bagiau'r rhai sy'n dod i mewn i'r safle'n cael eu chwilio gan bersonél diogelwch y drws. Pa un bynnag, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y goruchwyliwr safle dynodedig neu'r unigolyn enwebedig yn rhoi gwybod i'r Heddlu ar unwaith.
DA02	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod hysbysiad amlwg yn cael ei osod yn y safle yn hysbysu'r rhai sy'n mynychu y rhoddir gwybod i'r Heddlu os canfyddir unrhyw un ym meddiant sylweddau rheoledig neu arfau.
DA03	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod trefniadau diogelwch cofnodedig yn cael eu rhoi ar waith yn y safle i annog pobl i beidio â gwerthu a defnyddio sylweddau rheoledig. Bydd y cyfryw drefniadau diogelwch yn cynnwys trefnu bod aelod o staff yn archwilio mannau tai bach yn rheolaidd, a bod dyddiad ac amser pob archwiliad yn cael eu cofnodi mewn llyfr rhwymedig a gedwir at y diben hwnnw ac sydd i'w ddangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais. Gosodir arwyddion yn y mannau tai bach hefyd i hysbysu cwsmeriaid fod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd.
DA04	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau, o ran sylweddau rheoledig, bod gwybodaeth am leihau niwed yn cael ei harddangos yn y lleoliad a bod aelodau staff a chanddynt brofiad addas, neu weithwyr allgymorth o asiantaeth gyffuriau leol, wedi'u neilltuo i ddarparu gwybodaeth am leihau niwed ac ymdrin yn briodol â digwyddiadau neu argyfyngau cysylltiedig â chyffuriau.
DA05	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod cyfleusterau gorffwys yn cael eu darparu pan fo'r angen, er boddhad yr Awdurdod Trwyddedu, sy'n oerach, yn dawelach ac ar wahân, yn ddelfrydol, i'r prif fan(nau) dawnsio. Dylai fod digon o seddau ar gael yn yr ardaloedd 'tawelu' hyn.

DC RHEOLI / GWARCHOD DRYSAU	
DC01	Bydd goruchwylwyr drysau a gymeradwywyd gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch neu unrhyw gynllun achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu yn cael eu defnyddio i wirio cwsmeriaid a chynnal trefn gyhoeddus. Mae'n rhaid i'r broses wirio gynnwys gweithredu polisi prawf oedran y safle. Mae'n rhaid i bob goruchwyliwr drws sicrhau bod prawf adnabod sy'n dangos llun o'r cwsmer, ei ddyddiad geni a marc holograffig neu fesur diogelwch annatod yn cael ei ddangos cyn caniatáu mynediad, a lle na ddangosir prawf adnabod o'r fath, gwrthodir mynediad. Byddai prawf adnabod addas yn cynnwys cerdyn prawf adnabod a gymeradwywyd gan PASS, trwydded yrru gyda llun a phasbort.

DC02	Bydd o leiaf (<i>rhowch rif</i>) o oruchwylwyr drysau, sydd wedi'u hachredu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch neu unrhyw gynllun achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu, ar ddyletswydd o (<i>rhowch yr oriau</i>) o'r gloch ar bob diwrnod masnachu ac a fydd yn aros ar ddyletswydd hyd nes bod y safle'n cau.
DC03	<p>[A] Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y manylion canlynol ar gyfer pob goruchwylwr drws yn cael eu cofnodi'n gyfredol mewn cofrestr rwymedig a gedwir at y diben hwnnw:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Enw llawn; (ii) Rhif tystysgrif a/neu rif bathodyn Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA), neu rif cofrestru unrhyw gynllun achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu (gan gynnwys dyddiad dod i ben y cofrestrriad neu'r achrediad hwnnw); (iii) Yr amser pryd y dechreuodd ei ddyletswydd; (iv) Yr amser pryd y cwblhaodd ei ddyletswydd.

	<p>Rhaid i'r gofrestr hon gael ei chadw yn y safle bob amser a chael ei chynnal fel bod un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl yn gallu sefydlu manylion yr holl warchodwyr drws a gyflogwyd yn y safle yn ystod cyfnod o 31 diwrnod o leiaf cyn y cais, ac mae'n rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais.</p> <p>[B] Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y manylion canlynol ar gyfer pob goruchwylwr drws yn cael eu cofnodi mewn cofrestr rwymedig a gedwir at y diben hwnnw, gan gynnwys y manylion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Enw (ii) Dyddiad geni (iii) Cyfeiriad (iv) Rhifau ffôn cyswllt (v) Rhif tystysgrif SIA, neu rif cofrestru unrhyw gynllun achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu (vi) Manylion llawn unrhyw asiantaeth a ddefnyddiwyd i'w neilltuo i weithio yn y safle, os yw'n briodol <p>Dylai'r manylion hyn fod ar gael yn rhwydd i unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.</p>
--	---

DC04	<p>[A] Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y manylion canlynol ar gyfer pob goruchwyliwr drws yn cael eu cofnodi'n gyfredol mewn cofrestr rwymedig a gedwir at y diben hwnnw:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Enw llawn; (ii) Rhif tystysgrif a/neu rif bathodyn Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA), neu rif cofrestru unrhyw gynllun achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu (gan gynnwys dyddiad dod i ben y cofrestriad neu'r achrediad hwnnw); (iii) Yr amser pryd y dechreuodd ei ddyletswydd; (iv) Yr amser pryd y cwblhaodd ei ddyletswydd. <p>Rhaid i'r gofrestr hon gael ei chadw yn y safle bob amser a chael ei chynnal fel bod un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl yn gallu sefydlu manylion yr holl warchodwyr drws a gyflogwyd yn y safle yn ystod cyfnod o 31 diwrnod o leiaf cyn y cais, ac mae'n rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais.</p> <p>[B] Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y manylion canlynol ar gyfer pob goruchwyliwr drws yn cael eu cofnodi mewn cofrestr rwymedig a gedwir at y diben hwnnw, gan gynnwys y manylion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (vii) Enw (viii) Dyddiad geni (ix) Cyfeiriad (x) Rhifau ffôn cyswllt (xi) Rhif tystysgrif SIA, neu rif cofrestru unrhyw gynllun achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu (xii) Manylion llawn unrhyw asiantaeth a ddefnyddiwyd i'w neilltuo i weithio
	<p>yn y safle, os yw'n briodol</p> <p>Dylai'r manylion hyn fod ar gael yn rhwydd i unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.</p>
DC05	<p>Bydd deiliad y drwydded safle'n mynnu bod y Goruchwyliwr Safle Dynodedig, neu unigolyn cyfrifol arall yn ei absenoldeb, yn cadw "Cofrestr Adrodd am Ddigwyddiadau" mewn llyfr rhwymedig, lle y cofnodir manylion llawn pob digwyddiad. Bydd y manylion hyn yn cael eu cofnodi cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, ddim hwyrach na diwedd busnes ar ddiwrnod y digwyddiad. Rhaid i'r cofnod gynnwys yr amser a'r dyddiad pryd y cwblhawyd yr adroddiad, a chan bwy. Rhaid i'r gofrestr gael ei chadw yn y safle bob amser a chael ei dangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl pan fydd angen.</p>

DC06	Bydd deiliad y drwydded safle'n mynnu bod y goruchwyliwr safle dynodedig, neu unigolyn cyfrifol arall yn ei absenoldeb, yn enwi'r unigolion hynny sy'n ymgymryd â dyletswydd gwarchod drws i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
DC07	Bydd y Gwarchodwyr Drws yn gyfrifol am atal unigolion sy'n feddw ac afreolus rhag cael mynediad a sicrhau eu bod yn gadael y safle mewn modd nad yw'n achosi anhrefn ychwanegol.
DC08	Bydd Gwarchodwyr Drws yn atal unrhyw unigolyn sydd wedi'i wahardd (yn ddarostyngedig i waharddiadau Llys neu waharddiadau a osodwyd gan ddeiliad y drwydded) rhag cael mynediad i'r safle.
DC09	Lle y caniateir ciwio y tu allan i safle, bydd gwarchodwr/gwarchodwyr drws yn cynnal ciw trefnus o gwsmeriaid.
DC10	Lle y darperir adloniant rheoledig i blant mewn unrhyw adeilad, neu adloniant rheoledig y mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n ei fynychu'n blant, os bydd nifer y plant sy'n mynychu'r adloniant rheoledig yn fwy na chant, bydd dyletswydd ar yr unigolyn sy'n darparu'r adloniant i drefnu bod nifer ddigonol o gynorthwyyr sy'n oedolion a gyfarwyddwyd yn briodol ynglŷn â'u dyletswyddau yn goruchwyllo manau penodol yn barhaus, lle bynnag y bo'r angen, er mwyn atal mwy o blant neu bobl eraill rhag cael mynediad i'r safle, neu unrhyw ran ohono, nag y gall y safle neu'r rhan eu dal yn briodol, ac i reoli symudiad y plant ac unrhyw bobl eraill a dderbynnir tra eu bod yn mynd i mewn ac allan o'r adeilad neu unrhyw ran ohono, ac i gymryd pob rhagofal rhesymol er diogelwch y plant.
DC11	Er mwyn cydlynu gwarchodaeth y safle'n briodol a darparu'r lefel ofynnol o gymorth pe byddai sefyllfa argyfwng yn codi, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod unigolyn cymwys o blith y goruchwylwyr drws/staff diogelwch yn cael ei gysylltu â'r tîm gwasanaethau brys ar bob adeg briodol fel pwynt cyswllt ar gyfer gwarchodwyr a staff diogelwch.
DC12	Bydd lleiafswm nifer y goruchwylwyr drws a ddarperir mewn lleoliadau, sy'n cynnal adloniant rheoledig ar gyfer llai na 500 o bobl, yn seiliedig ar asesiad risg.
DC13	Bydd lleiafswm nifer y goruchwylwyr drws a ddarperir mewn lleoliadau, sy'n cynnal adloniant rheoledig ar gyfer mwy na 500 o bobl, yn seiliedig ar asesiad risg. Bydd yr asesiad risg yn dilyn yr argymhellion a osodir yng Nghanllaw Diogelwch Digwyddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu unrhyw ganllaw tebyg a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu.
DC14	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu defnyddio yn y safle i wirio oedran cwsmeriaid sy'n cael alcohol. Bydd unrhyw fesurau sydd i'w defnyddio'n cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu mewn ymgynghoriad â'r Heddlu.

DC15	<i>Sylwer bod yr amod hwn wedi'i gyfeirio'n benodol at safleoedd problemus.</i> Bydd goruchwylwyr drws yn cael eu darparu yn y safle yn unol â chymhareb 1:85 o gwsmeriaid. Pan fo'r safle'n cynnwys ardal benodol ar gyfer ysmegu o fewn ei gwrtil, bydd o leiaf (<i>rhowch rif</i>) o oruchwylwyr drws yn monitro'r ardal ysmegu'n barhaol yn ystod (<i>rhowch oriau priodol</i>).
DC16	Bydd o leiaf (<i>rhowch rif</i>) o oruchwylwyr drws wedi'u lleoli'n barhaol wrth bob mynedfa/allanfa [heblaw am allanfeydd tân] i'r safle.
DC17	Bydd goruchwylwyr drws ar ddyletswydd yn y safle ar bob diwrnod masnachu o (<i>rhowch yr oriau dechrau</i>) tan (<i>rhowch yr oriau gorffen</i>).
DC18	Bydd yr holl oruchwylwyr drws yn gallu cyfathrebu â'i gilydd yn syth trwy gyfrwng radio neu system gyfathrebu gydamserol arall.
DC19	<i>Sylwer bod yr amod hwn wedi'i gyfeirio'n benodol at safleoedd problemus.</i> Bydd yr holl oruchwylwyr drws yn gwisgo dillad arbennig neu arwyddlun fel y gellir eu hadnabod yn rhwydd fel goruchwylwyr drws. Bydd goruchwylwyr drws sydd ar ddyletswydd wrth y drws blaen yn gwisgo rhyw fath o ddillad amlwg (fel siaced neu wasgod).
DC20	Pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd ar ddydd Sul cyn Gŵyl Banc, bydd staff drws sydd wedi'u cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn cael eu cyflogi yn ystod yr holl oriau masnachu.

DE DOSBARTHU ALCOHOL	
DE01	Pan fydd cwsmeriaid yn archebu alcohol, mae gofyn iddyn nhw gadarnhau eu bod nhw dros 18 oed
DE02	Rhaid talu am gyflenwad alcohol wrth ei archebu. Ni chaniateir talu pan caiff ei gyflenwi.
DE03	Ni fydd alcohol yn cael ei adael heb neb yn gofalu amdano mewn man dosbarthu o gwbl a dim ond i'r person sydd wedi gosod yr archeb y bydd yn cael ei drosglwyddo iddo, a fydd yn rhoi tystiolaeth ei fod dros 18 oed.
DE04	Ni fydd alcohol yn cael ei ddosbarthu i fannau cyhoeddus, dim ond cyfeiriadau preswyl.
DE05	Bydd deiliad trwydded y safle yn sicrhau, pan fydd unrhyw alcohol yn cael ei ddosbarthu a bydd y derbynnydd yn ymddangos o dan 25 oed, y gofynnir am dull adnabod ffotograffig safonol cyn trosglwyddo unrhyw alcohol. Bydd prawf oedran safonol yn cynnwys dull adnabod gyda llun y cwsmer, dyddiad geni a marc holograffig neu fesur diogelwch mewnol. Byddai dulliau adnabod addas yn cynnwys cerdyn prawf oedran wedi'i gymeradwyo gan PASS, trwydded yrru cerdyn-llun a phasbort

DE06	<p>Os nad yw gyrrwr dosbarthu nwyddau yn gallu cael prawf adnabod gan gwsmer, yna ni fydd y cwsmer yn cael yr alcohol, a bydd cofnod o'r gwrthodiad hwnnw'n cael ei wneud yn ysgrifenedig neu'n electronig a bydd yn cynnwys y canlynol:</p> <p>a) Cyfeirnod yr archeb;</p> <p>b) Dyddiad gwrthod;</p> <p>c) Rheswm dros wrthod;</p> <p>d) Hunaniaeth yr unigolyn sy'n gwrthod dosbarthu</p> <p>Bydd cofnodion o'r gwrthodiadau hyn yn cael eu cadw yn y siop am gyfnod o 12 mis a byddan nhw ar gael i'r awdurdodau ar gais.</p>
DE07	Bydd pob gyrrwr dosbarthu nwyddau dros 18 oed.
DE08	<p>Dylai'r holl staff ac unrhyw yrwyr dosbarthu nwyddau a gyflogir gan drydydd parti gael eu hyfforddi i atal gwerthiannau dan oed i lefel sy'n gymesur â'u dyletswyddau, cyn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn. Dylid diweddarau pob hyfforddiant o'r fath yn ôl yr angen, ar gyfer achosion lle mae deddfwriaeth yn newid, a dylai gynnwys hyfforddiant ar sut i ddelio â chwsmeriaid anodd. Dylai'r hyfforddiant gael ei ddogfennu'n glir a'i lofnodi a'i ddyddio gan yr hyfforddwr a'r aelod o staff sy'n cael yr hyfforddiant. Bydd y ddogfennaeth ar gael i'w harchwilio ar gais gan swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.</p>
DE09	<p>Yn achos pob dosbarthiad alcohol, rhaid cadw cofnod o enw'r gyrrwr sy'n ei ddosbarthu ac, os yw'n cael ei gyflogi gan drydydd parti, manylion y cyflogwr. Bydd y cofnodion hyn hefyd ar gael i'w harchwilio ar gais gan swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.</p> <p>Dylai'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â hyfforddiant ymestyn yn ôl i gyfnod o dair blynedd a dylai nodi'r amser, y dyddiad a manylion yr unigolion sy'n darparu'r hyfforddiant ac yn cael yr hyfforddiant.</p>

EL F FITIADAU A GOSODIADAU TRYDANOL	
EL01	<p>Ni cheir darparu systemau dosbarthu a gwifro trydanol dros dro heb hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 10 niwrnod cyn i'r gwaith ddechrau ac i archwiliad gael ei gynnal o flaen llaw gan drydanwr a chanddo gymwysterau addas. Bydd cofnod yn cael ei gadw gan ddeiliad y drwydded safle.</p>

EL02	Dylai'r gosodiad gwifro trydanol sefydlog ac unrhyw ddyfeisiau trydanol cludadwy gael eu harchwilio a'u profi gan unigolyn cymwys ar yr amllder a nodir yn y Rheoliadau ar gyfer Offer Trydanol Adeiladau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Peirianwyr Trydanol (BS 7671 neu unrhyw Safon Brydeinig sy'n ei disodli neu'n ei diwygio) ar gyfer y math hwnnw o safle ac offer. Bydd cofnodion o'r archwiliad hwn yn cael eu cynnal gan ddeiliad y drwydded ac ar gael yn y safle i'w harchwilio gan unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
EL03	Bydd yr holl systemau dosbarthu a gwifro trydanol dros dro yn cydymffurfio ag argymhellion Safon Brydeinig Rhif 7671 neu, lle y bo'n berthnasol, Safon Brydeinig Rhif 7909 neu unrhyw Safon Brydeinig sy'n eu disodli neu'n eu diwygio.
EL04	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod Dyfais Cerrynt Gweddilliol amddiffynnol, sy'n sensitif i gerhyntau tripio o ddim mwy na 30 mili-amp, yn cael ei gosod ar bob cylched pŵer sy'n cyflenwi socedi y gellid eu defnyddio gan ddifyrwy / aelodau'r cyhoedd i blygio offer trydanol. Dylai'r rhain cael eu profi'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i weithredu fel sy'n ofynnol.
EL05	O ran safleoedd sydd ag ardaloedd awyr agored, mae'n rhaid i Ddyfais Cerrynt Gweddilliol amddiffynnol, sy'n sensitif i gerhyntau tripio o ddim mwy na 30 mili-amp, gael ei gosod ar gylchedau pŵer sy'n cyflenwi socedi awyr agored a socedi dan do y gellid disgwyl iddynt, trwy ddefnyddio lidiau estyn â phlwg, bweru cylchedau awyr agored.
EL06	Darperir modd mynediad priodol i gynnal a chadw'r holl ffitiadau neu gyfarpar trydanol.
EL07	Bydd gosodiad trydanol mewn ardaloedd a ddefnyddir gan y cyhoedd yn ddarostyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> (i) Bydd unrhyw newidiadau a wneir i osodiadau trydanol, gan gynnwys defnyddio systemau dosbarthu a gwifro dros dro, yn cydymffurfio â rhifyn perthnasol y Rheoliadau ar gyfer Offer Trydanol Adeiladau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Peirianwyr Trydanol (BS 7671 neu unrhyw Safon Brydeinig sy'n ei disodli neu'n ei diwygio). (ii) Bydd yr holl offer a gosodiadau trydanol yn cael archwiliadau gweledol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gweithio'n iawn, yn ogystal â phroffion arferol ffurfiol gan unigolyn cymwys fel y cynghorir yn y canllaw BS 7671 uchod. (iii) Mae'n rhaid i Ddyfais Cerrynt Gweddilliol amddiffynnol, sy'n sensitif i gerhyntau tripio o ddim mwy na 30 mili-amp, gael ei gosod ar gylchedau pŵer sy'n cyflenwi socedi awyr agored a socedi dan do y gellid disgwyl iddynt, trwy ddefnyddio lidiau estyn â phlwg, bweru cylchedau awyr agored.

EX ARDALOEDD ALLANOL

EX01	Bydd (<i>rhowch enw'r ardal h.y. yr ardd gwrw, y patio uchaf, ac ati</i>) ar agor i gwsmeriaid ar (<i>rhowch y diwrnodau</i>) o (<i>rhowch yr amser dechrau</i>) tan 22:00 o'r gloch yn unig. Bydd arwyddion digonol yn cael eu harddangos mewn manau priodol i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei dwyn i sylw cwsmeriaid.
------	--

EX02	Mae'n rhaid i'r holl ardaloedd allanol gael eu cau a'u clirio o gwsmeriaid erbyn 22:00 o'r gloch. Bydd arwyddion digonol yn cael eu harddangos i roi gwybod i gwsmeriaid am y gofyniad hwn.
EX03	Bydd deiliad y drwydded safle'n ymchwilio i fesurau, a'u cynnig, i amgáu ardal yr ardd hyd at uchder digonol er mwyn atal cwsmeriaid neu aelodau'r cyhoedd rhag mynd i mewn neu allan o ardaloedd yr ardd dros y ffin bresennol o fewn 3 mis o ddyddiad y gwrandawriad (h.y. <i>(rhowch y dyddiad)</i>). Mae'r cyfryw gynigion i'w gweithredu yn amodol ar ymdrechion gorau'r ymgeisydd i gael caniatâd cynllunio. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau o fewn blwyddyn o ddyddiad y gwrandawriad (h.y. erbyn <i>(rhowch y dyddiad)</i>).
EX04	Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal a'i adolygu'n rheolaidd i asesu nifer y bobl y mae'n ddiogel iddynt fod yn yr ardal awyr agored. Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod mesurau ar waith i fonitro'r ardal allanol er mwyn sicrhau nad eir yn fwy na ffigur meddiannaeth ddiogel.

FA CYMORTH CYNTAF	
FA01	O ran digwyddiadau y disgwylir i fwy na 100 o bobl ddod iddynt neu lle y cynhelir gweithgaredd sy'n debygol o arwain at anaf personol (e.e. digwyddiadau chwaraeon dan do/defnyddio effeithiau arbennig ac ati), bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod darpariaeth cymorth cyntaf ar gael ar bob adeg pan fo'r gweithgaredd trwyddedadwy'n digwydd a bod unigolyn sydd â chymwysterau cymorth cyntaf priodol yn y safle yn ystod y cyfnod hwnnw.
FA02	Bydd y safon ofynnol o ran darpariaeth cymorth cyntaf ar gyfer digwyddiadau i fwy na 500 o bobl yn cael ei phennu yn unol ag asesiad risg. Bydd yr asesiad risg yn ystyried yr argymhellion a geir yng Nghanllaw Diogelwch Digwyddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu unrhyw ganllaw arall a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu.
FA03	Bydd deiliad y drwydded safle'n darparu cyfleusterau meddygol yr ystyrir eu bod yn addas i'r diben gan y Gwasanaeth Ambiwlans. Darperir manylion trefniadaeth y gwasanaethau hyn i'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 14 diwrnod cyn digwyddiad. Bydd y cyfleusterau meddygol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> (i) Dull cyfathrebu digonol rhwng y man(nau) cymorth cyntaf a'r prif bwynt cyswllt yn y safle a/neu stiwardiaid, a man aros digonol ar gyfer ambiwlansiau; (ii) Cyfleusterau meddygol digonol yn yr ardal rhwng y llwyfan a'r gynulleidfa/cefn y llwyfan; (iii) Cyfleuster o fewn ardal y cyngerdd sy'n gweithredu fel y prif gyfleuster meddygol a ddarperir gan y contractwr cymeradwy ar gyfer cyfleusterau meddygol. <p>Bydd pobl sy'n gwisgo dillad arbennig yn gweithio yn y man(nau) cymorth cyntaf, a bydd y gweithwyr cymorth cyntaf yn y safle ar gael i gynnig cymorth ym mhob rhan ohono.</p>

FA04	Bydd unedau tŷ bach unigol, nad ydynt ar gael at ddefnydd y cyhoedd, yn cael eu lleoli ger y man(nau) cymorth cyntaf.
FA05	Bydd deiliad y drwydded safle'n rhoi gwybod i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Great Western (neu gorff cyfatebol) am yr asiantaeth cymorth cyntaf sy'n gweithredu yn y safle, cyn y digwyddiad, a'r pwynt cyswllt ffôn yn y safle ar gyfer yr asiantaeth honno. Bydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Great Western yn tystio er bodlonrwydd yr Awdurdod Trwyddedu bod trefniadau digonol wedi'u gwneud gyda'r asiantaeth cymorth cyntaf sy'n gweithredu yn y safle i ymdrin ag argyfyngau.
FA06	Bydd cyfleusterau meddygol digonol ar gael yn y safle o'r adeg pryd y'i meddiannir gyntaf gan y cyhoedd i'r adeg pryd y'i gadewir. Bydd lefel y ddarpariaeth yn unol â'r hyn a gynghorir gan y Gwasanaeth Ambiwllans a bydd yr adeg pryd y daw'r ddarpariaeth i ben yn ddarostyngedig i gytundeb gan yr Awdurdod Trwyddedu.

FE OFFER YMLADD TÂN A RHAGOFALON TÂN

Sylwer nad oes unrhyw amodau yn yr adran hon gan fod amodau posibl wedi'u disodli gan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn ymwneud â Diogelwch rhag Tân.

GS DIOGELWCH CYFFREDINOL A GWACÁU	
GS01	Sicrheir bod yr holl ddrysau a ffasninau'n gweithio'n iawn bob amser.
GS02	Bydd arwydd "PREIFAT" yn cael ei osod ar unrhyw ddrws na chaiff y cyhoedd ei ddefnyddio, ac ni fydd arwyddion sy'n cynnwys y geiriau "DIM ALLANFA" na "DIM FFORDD ALLAN" yn cael eu defnyddio.
GS03	Ni fydd drws na giât yn agor yn syth ar ris neu risiau. Bydd ardal pen grisiau nad yw'n llai na 900 mm o led yn cael ei darparu rhwng y drws a'r giât a'r gris neu'r grisiau.
GS04	Ni cheir defnyddio rhwystrau i wirio neu reoli mynediad heb ganiatâd yr Awdurdod Trwyddedu.
GS05	Ni cheir darparu rhwystrau dros dro, heblaw am rwystrau rhaff o fath a gymeradwyir gan yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd rhwystrau rhaff a gymeradwyir gan yr Awdurdod Trwyddedu'n cael eu gosod gyda chliciedau awtomatig neu gysylltiadau slip ac fe'u trefnir mewn modd sy'n sicrhau nad ydynt yn llusgo ar y llawr pan gânt eu gwahanu, ac ni fydd y ffitiadau'n ymwthio allan i'r ale neu'r allanfa.
GS06	Ni cheir hongian llenni ar draws aleau na thros risiau; lle y cânt eu hongian dros fynedfeydd neu ar draws coridorau, byddant yn tynnu'n rhydd o'r canol ac yn llithro'n rhydd a byddant yn glir o'r llawr. Bydd yr holl addurniadau crog, llenni ac addurniadau dros dro'n cael eu cynnal mewn cyflwr gwrthfflam.

GS07	Bydd yr holl addurniadau crog, llenni ac addurniadau dros dro'n cael eu trefnu mewn modd sy'n sicrhau nad ydynt yn achosi unrhyw rwystr.
GS08	Ni cheir defnyddio unrhyw addurniadau dros dro heb hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o flaen llaw.
GS09	Ni cheir defnyddio grisffyrdd, coridorau nac aleau fel ystafelloedd cotiau ac ni cheir gosod unrhyw begiau ynddynt ar gyfer hongian hetiau, clogynnau nac eitemau eraill. Bydd yr holl lwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir o unrhyw rwystr. Lle y darperir ystafelloedd cotiau, fe'u lleolir mewn modd sy'n sicrhau nad yw'r unigolion sy'n eu defnyddio'n amharu ar ddefnydd rhydd o unrhyw lwybr allan.
GS10	Caniateir i'r cyhoedd adael trwy'r holl ddrysau allanfa a mynedfa ar ôl pob perfformiad; caiff mynedfeydd eu hystyried yn allfeydd a'u trin felly i bob pwrpas, cyn belled ag nad ydynt yn ddrysau tro neu wedi'u gosod â giatiau tro.
GS11	Bydd modd dianc digonol yn cael ei ddarparu o bob ystafell wisgo.

GS12	Bydd aleau o led digonol ar gyfer nifer y bobl a wasanaethir, ac ni chânt fod yn llai nag 1.1 m o led mewn unrhyw achos.
GS13	Ni chaniateir unrhyw ymwithiad a fyddai'n lleihau lled clir yr ale.
GS14	Ni chaniateir i unrhyw unigolyn eistedd na sefyll mewn unrhyw ale, ac eithrio gyda chaniatâd penodol yr Awdurdod Trwyddedu a fydd yn pennu'r lle a ganiateir ar gyfer sefyll a nifer yr unigolion y caniateir iddynt sefyll.
GS15	Bydd allanfeydd argyfwng yn cael eu cadw'n glir o rwystrau ar unrhyw adeg pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal.
GS16	Bydd canllaw di-dor yn cael ei osod yn gadarn ar bob ochr i bob grisffordd, grisiau ac ardal pen grisiau ar uchder heb fod yn llai na 840 mm a heb fod yn fwy nag 1 fetr, a fesurir yn fertigol o'r llinell ogwydd, ond dim ond un canllaw o'r fath y byddai angen ei ddarparu ar risffyrdd, grisiau neu ardaloedd pen grisiau sy'n llai nag 1 m o led. Yn achos grisiau 1.8 metr neu fwy o led, bydd canllaw canolog yn cael ei ddarparu hefyd, a gynhelir ac a gysylltir yn briodol â'r grisiau.
GS17	Bydd deiliad y drwydded safle'n darparu hyfforddiant i'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl ffyrdd i mewn ac allan a'r gweithdrefnau priodol yn achos unrhyw argyfwng sy'n golygu bod angen gwacáu'r safle ar unwaith. Bydd cofnod o'r hyfforddiant yn cael ei gynnal a bydd ar gael ar gais gan un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
GS18	Ni chaniateir addurniadau papur nad ydynt yn addurniadau y mae eu harwyneb cyfan wedi'i lynu'n uniongyrchol wrth waliau neu nenfydau.
GS19	Bydd trefniadau a bennwyd o flaen llaw yn cael eu gwneud i rybuddio staff yn achos unrhyw argyfwng. Dylid sicrhau nad yw'r trefniadau hyn yn dychryn y cyhoedd.

GS20	Bydd gan bob gweithiwr neu unigolyn sy'n ymwneud â threfnu a rheoli digwyddiadau ddyletswyddau penodol a neilltuwyd iddynt i'w cyflawni yn achos tân, panig neu argyfwng arall. Dylai'r cyfryw ddyletswyddau geisio osgoi panig a gwacáu'r safle'n ddiogel lle y bo'r angen yn hytrach na diffodd tân.
GS21	Bydd modd agor pob drws allanfa'n rhwydd heb ddefnyddio allwedd, cerdyn, cod neu ddull tebyg.
GS22	Mae'n rhaid archwilio drysau'r cyfryw allanfeydd yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n foddhaol, ac mae'n rhaid cadw cofnod o'r archwiliad mewn cofnodlyfr at y diben hwnnw.
GS23	Mae'n rhaid sefydlu trefniadau i sicrhau bod pob rhan o'r safle y caiff aelodau'r cyhoedd eu defnyddio, boed hynny'n rheolaidd neu mewn argyfwng yn unig, wedi'u goleuo'n addas pan fyddant yn cael eu defnyddio (mae hyn yn cynnwys ardaloedd mewnlol ac allanol, er enghraifft coridorau, cynteddau, allanfeydd argyfwng, meysydd parcio ac ati).
GS24	Pan fo'r safle'n rhan o eiddo a rennir a'i bod yn bosibl y bydd angen i aelodau'r cyhoedd gael mynediad trwy ardaloedd nad ydynt o dan reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded safle (fel llwybrau dianc), mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded safle sicrhau ei fod wedi cysylltu â'r unigolion priodol ac wedi sefydlu'r trefniadau

	angenrheidiol i sicrhau nad yw diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu trwy ddefnyddio'r ardaloedd hyn a rennir ac nad yw un o'r amodau trwyddedu eraill yn cael eu torri.
GS25	Lle y gallai'r safle, neu rannau o'r safle, gael ei hurio gan drydydd partion neu ei ddefnyddio gan hyrwyddwyr digwyddiadau, mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded safle sicrhau bod trefniadau priodol ar waith a fydd yn sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, bod y trydydd parti'n ymwybodol o'r amodau trwyddedu a bod ganddo ei drefniadau ei hun ar waith a fydd yn sicrhau nad yw'r amcanion trwyddedu'n cael eu peryglu.
GS26	O ran yr holl lwybrau a ddefnyddir gan y cyhoedd (gan gynnwys mynedfeydd, aleau, cynteddau, coridorau, tramwyfeydd ac allanfeydd, a'r holl risiau a grisffyrdd): <ul style="list-style-type: none"> (i) Dylai ymyl pob gris fod o liw cyferbyniol i weddill y gris. Bydd ymyl pob gris i'w weld yn amlwg mewn goleuadau diogelwch; (ii) Dylai unrhyw newidiadau mewn lefel fod yn amlwg i'r cyhoedd, er enghraifft trwy ddefnyddio lliwiau cyferbyniol neu oleuadau ychwanegol; (iii) Dylai matiau sy'n fwy nag 1 cm o drwch gael eu suddo i lefel y llawr oni bai eu bod yn rhai rwber gydag ymylon peflog. Bydd canllaw di-dor yn cael ei osod yn gadarn ar bob ochr i bob grisffordd, grisiau ac ardal pen grisiau sy'n llai nag 1 m o led. Yn achos grisiau 1.8 metr neu fwy o led, bydd canllaw canolog yn cael ei ddarparu hefyd, a gynhelir ac a gysylltir yn briodol â'r grisiau.

GS27	Ffitiadau Trwm. Mae'n rhaid i ffitiadau trwm fel taflunyddion, goleuadau llwyfan ac ati gael eu hongian trwy gyfrwng dau fath annibynnol o gyfarpar o leiaf e.e. clamp a chadwyn.
GS28	<p>Ardal Ysmygu. Os caniateir i gwsmeriaid ddefnyddio'r ardal ar gyfer ysmygu, mae'n rhaid i'r amodau canlynol fod yn gymwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Mae'n rhaid i'r ardal gael ei monitro'n ddigonol gan staff drws a theledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn achosi niwsans nac yn rhwystro mynediad i safle cyfagos a bod risg trosedd ac anhrefn yn yr ardal hon yn cael ei rheoli'n ddigonol; (ii) Os oes risg y gallai cwsmeriaid gael gafael ar eitemau anghyfreithlon fel cyffuriau neu arfau tra'u bod yn yr ardal hon, mae'n rhaid eu chwilio cyn caniatáu iddynt ddod yn ôl i mewn i'r safle; (iii) Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â diodydd i'r ardal ysmygu; (iv) Mae'n rhaid darparu biniau/blychau llwch addas yn yr ardal, a rhaid i staff drws fonitro'r defnydd o'r rhain; (v) Mae'n rhaid i'r ardal gael ei sgubo'n rheolaidd i gael gwared ar fonion sigarét; (vi) Mae'n rhaid gwneud trefniadau digonol i atal gorlenwi neu anhrefn yn y (<i>rhowch y lleoliad</i>), yn enwedig os yw cwsmeriaid yn mynd allan i'r ardal ysmygu tra bod eraill yn ciwio i fynd i mewn yn/ar y (<i>rhowch y lleoliad</i>).
GS29	Mae'n rhaid i'r holl aleau, tramwyfeydd, grisffyrdd ac allanfeydd gael eu cadw'n gwbl glir bob amser o gadeiriau neu unrhyw rwystrau eraill ac o unrhyw eitem berthnasol a allai achosi i rywun lithro, baglu neu gwympto.
GS30	<p>Ni chaniateir defnyddio rhwystrau i wirio neu reoli mynediad ac eithrio yn unol â pholisi cofnodedig sy'n cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Asesiadau risg; (ii) Manylion y math o rwystr, gan gynnwys dyluniad, y deunyddiau y'i gwnaed ohonynt, maint – e.e. uchder (iii) Union leoliad pob rhan o'r rhwystr <p>Bydd y ddogfen uchod wedi cael ei rhoi i'r Awdurdod Trwyddedu, i'w chadw gyda chofnodion y drwydded.</p>
GS31	Bydd lloriau'r holl aleau, cynteddau, coridorau, tramwyfeydd a llwybrau allan eraill a thu uchaf yr holl risiau a grisffyrdd yn wastad ac o ddeunydd gwrthlithro. Bydd ymyl blaen tu uchaf grisiau, newidiadau lefel a grisffyrdd o liw cyferbyniol i weddill y tu uchaf. Bydd yr ymylon blaen i'w gweld yn amlwg mewn goleuadau argyfwng. (gallai safle gael ei eithrio o'r gofyniad hwn os yw'n adeilad rhestredig neu debyg).
	Dyletswydd Diogelu/Cyfraith Martyn
GS32	Bob amser y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, rhaid i'r holl staff sydd ar ddyletswydd yn y safle, gan gynnwys yr holl oruchwylywr drysau a'r holl reolwyr ar ddyletswydd, fod wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu Ymwybyddiaeth Action Counters Terrorism (ACT). Yn ogystal, rhaid i o leiaf 1 rheolwr ar ddyletswydd ac unrhyw oruchwylydd/rheolwr diogelwch ar ddyletswydd hefyd fod wedi mynychu sesiwn Ymwybyddiaeth Gwrthderfysgaeth a ddarperir gan bersonél

	hyfforddedig Plismona Gwrthderfysgaeth yng Nghymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os na chaiff ei gwblhau, mae'n rhaid iddyn nhw fod wedi cofrestru i fynychu cwrs a gallu darparu tystiolaeth o hyn os bydd swyddog heddlu neu swyddog awdurdodedig yr awdurdod trwyddedu yn gofyn am hynny.
GS33	Mae'n rhaid i'r Goruchwyllydd Safle Dynodedig fod wedi mynychu sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth Gwrthderfysgaeth a ddarperir gan bersonél sydd wedi'u hyfforddi gan Plismona Gwrthderfysgaeth yng Nghymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Ym mhob achos, o fewn 28 diwrnod i enwi Goruchwyllydd Safle Dynodedig newydd ar y drwydded, rhaid ei fod wedi cofrestru i fynychu cwrs a gallu darparu tystiolaeth o hyn os bydd swyddog heddlu neu swyddog awdurdodedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gofyn am hynny.
GS34	Rhaid cael asesiad diogelwch wedi'i ddogfennu ac mae'n rhaid iddo gynnwys mesurau gwrthderfysgaeth ar gyfer y safle. Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd a rhaid ei adolygu pe bai'r lefel bygythiad cenedlaethol yn codi. Bydd pob adolygiad yn cael ei ddogfennu.
GS35	O fewn 28 diwrnod i roi neu amrywio'r drwydded, bydd deiliad trwydded y safle yn gwerthuso unrhyw risgiau a nodwyd drwy'r asesiad diogelwch ac yn cymryd camau prydlon i'w dileu neu i leihau'r risg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid cadw cofnod wedi'i ddogfennu o unrhyw gamau adferol a roddwyd ar waith a sicrhau ei fod ar gael ar gais i unrhyw swyddog heddlu neu swyddog awdurdodedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
GS36	Rhaid i'r eiddo fod â chynllun diogelwch wedi'i ddogfennu, sy'n nodi mesurau gwrthderfysgaeth i'w gweithredu mewn ymateb i ymosodiad terfysgol sy'n ymgorffori egwyddorion 'Tywys', 'Gwarchod' a 'Chyfathrebu' fel y bo'n briodol, yn unol â'r canllawiau perthnasol gan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol/y Ganolfan Diogelu Seilwaith Cenedlaethol, ac mae'n rhaid i'r rhai sy'n eu cyflawni ddeall dibenion y gweithdrefnau hynny a'r angen i'w dilyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Tywys – Cyfeirio pobl tuag at y lleoliad mwyaf priodol (llochesu, gwacáu, cuddio) ○ Llochesu – Deall sut y gallai eich lleoliad neu'ch gofod chi gloi a chysgodi pobl y tu mewn iddo am sawl awr ○ Cyfathrebu – Bod â modd o gyfathrebu'n effeithiol ac yn brydlon â defnyddwyr eich lleoliad chi a chael staff sy'n gallu rhoi cyfarwyddiadau clir. Hefyd bod â'r gallu i integreiddio ag unrhyw ymateb neu weithrediad achub trwy ddarparu pethau fel cynlluniau o'r adeilad.

GB	GWYDR / POTELI
GB01	Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw boteli neu wydrau'n cael eu cymryd oddi ar bobl sy'n gadael y safle.
GB02	Ni chaniateir rhoi poteli sy'n cynnwys diodydd o unrhyw fath, pa un a ydynt wedi'u hagor neu eu selio, i gwsmeriaid yn y safle i'w hyfed gan yr unigolion hynny yn y safle wrth y bar neu gan staff gweini i ffwrdd oddi wrth y bar.
GB03	Bydd cynnwys unrhyw ddiod mewn potel yn cael ei arllwys i wydr plastig / PTE cyn ei weini i unrhyw gwsmer.

GB04	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod yr holl wydrau yfed a ddefnyddir yn y safle wedi'u gwneud o wydr gwydn neu wydr diogelwch hyd at y safon ddiogelwch briodol, yn yr ystyr na fyddant yn cynhyrchu darnau miniog pan gânt eu torri.
GB05	Ni chaiff unrhyw gwsmer sy'n cario cynwysyddion diod agored neu seliedig ddod i mewn i'r safle ar yr adegau pan fydd ar agor i'r cyhoedd.
GB06	Ceir gwerthu poteli sy'n cynnwys gwin dim ond mewn cysylltiad â phryd wrth fwrdd i gwsmeriaid sy'n eistedd mewn ardal ar gyfer bwyta bwyd sydd i ffwrdd oddi wrth y prif far.
GB07	Ni chaniateir eitemau gwydr (fel gwydrau, poteli, ac ati) yn yr ardal awyr agored/yr ardal ddawnsio [*dilëer fel y bo'n briodol].
GB08	Gwydriad. Mae'n rhaid i ffenestri a drychau fod wedi'u gwneud o wydr diogelwch neu wedi'u hamddiffyn yn ddigonol rhag eu torri, yn enwedig pan fyddant mewn lleoliadau sy'n allweddol o ran diogelwch. Mae'n rhaid iddynt gael eu marcio hefyd fel bod eu presenoldeb yn amlwg.
GB09	Bydd yr holl ddiodydd (gan gynnwys diodydd alcoholig a diodydd heb alcohol) yn cael eu rhoi mewn cynwysyddion polycarbonad, plastig neu ddiwydr yn unig.
GB10	Bydd cynnwys yr holl boteli gwydr yn cael ei arllwys i gynwysyddion polycarbonad, plastig neu ddiwydr gan staff bar. Bydd yr holl boteli gwydr yn cael eu cadw y tu ôl i'r bar i'w gwaredu'n ddiogel.
GB11	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod unrhyw boteli neu wydrau'n cael eu cymryd oddi ar bobl sy'n gadael y safle.

HF LLUNIAETH HWYRNOS [BWYD POETH]	
HF01	<p>Ni fydd yn gyfreithlon codi unrhyw dâl am adloniant unigolion yn y man lluniaeth yn ystod oriau agor hwyr, nac mewn cysylltiad â hynny, boed hynny ar gyfer cyflenwi bwyd neu ddiod, mynediad, gwasanaeth o unrhyw ddisgrifiad neu unrhyw fater arall, ac eithrio unrhyw dâl rhesymol am ddefnyddio cyfleusterau ystafell gotiau neu dai bach, oni bai:</p> <p>(i) Bod tariff neu daliadau a godir yn y man lluniaeth yn cael eu harddangos yn ystod yr oriau hynny yn y fath safle ac yn y fath fodd fel y gellir eu darllen yn rhwydd gan unigolyn sy'n mynychu'r man lluniaeth ac y gellir eu darllen felly gan unrhyw unigolyn o'r fath cyn mynd i mewn;</p> <p>a</p> <p>(ii) Bod y tâl wedi'i nodi ar gyfer y mater dan sylw yn y tariff; ac (iii) Nid yw'r tâl yn fwy na hwnnw a nodir yn y tariff</p>
HF02	Ni fydd yn gyfreithlon ceisio cael cwsmeriaeth ar gyfer y man lluniaeth trwy gyfrwng deisyf personol y tu allan i'r man lluniaeth neu'n agos iddo.

NP	RHAGOFALON SŴN
NP01	<p><i>Er y cydnabyddir nad yw amlygiad tymor byr yn debygol o achosi niwed tymor hir i'r clyw, cydnabyddir y gallai achosi problemau iechyd tymor byr fel tinitws, trawma acwstig neu symudiad trothwy dros dro os yw'r lefelau sŵn yn ormodol.</i></p> <p>Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Nad yw'r seinyddion yn cael eu gosod mewn safleoedd lle y gall aelodau'r cyhoedd sefyll yn agos iddynt. (ii) Bod arwyddion sy'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar amddiffyn clyw yn cael eu harddangos yn briodol. <p>Bydd plygiau clustiau ar gael naill ai'n rhad ac am ddim neu ar gael i'w prynu gan gwsmeriaid.</p>
NP02	Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth wedi'i mwyhau ar lefel a fydd yn achosi aflonyddwch afresymol i feddianwyr unrhyw eiddo yn y cyffiniau.
NP03	Ac eithrio i fynd i mewn ac allan, bydd yr holl ddrysau a ffenestri'n cael eu cadw ar gau yn ystod cyfnodau adloniant sy'n gysylltiedig â'r Drwydded Safle.
NP04	Ni chaniateir gosod unrhyw seinyddion ar gyfer mwyhau cerddoriaeth y tu allan i'r safle na'r tu allan i unrhyw adeilad sy'n ffurfio rhan o'r safle.
NP05	Bydd larymau'n cael eu gosod ar (nodwch leoliad drysau tân/ffenestri allanol) i rybuddio staff pan (fydd) (fyddant) yn cael (ei (h)agor) (eu hagor) heb awdurdodiad.
NP06	Ni chaniateir trosglwyddo unrhyw gerddoriaeth nac iaith lafar trwy seinyddion allanol heblaw ar gyfer digwyddiadau y cafwyd cymeradwyaeth o flaen llaw ar eu cyfer gan
	yr awdurdod trwyddedu.
NP07	Cytunir ar fanyleb, lleoliad a chyfeiriad yr holl seinyddion sefydlog gydag un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.
NP08	Ni chaniateir symud nac amnewid seinyddion nac unrhyw offer mwyhau heb ymgynghori ag un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedig a chael ei gytundeb.
NP09	Ni fydd sŵn o gerddoriaeth a ffynonellau cysylltiedig yn glywadwy mewn safleoedd sy'n sensitif i sŵn (<i>rhwng 23.00 a 07.00 o'r gloch y diwrnod nesaf</i>) (ar unrhyw adeg).
NP10	Er mwyn gwella gwanhad sain y safle, bydd gwydriad (<i>dwbl</i>) (<i>eilaidd</i>) yn cael ei osod ar y (<i>drws/drysau</i>) (<i>ffenestr(i)</i>) yn (<i>nodwch</i>) er boddhad yr Awdurdod Trwyddedu erbyn (<i>rhowch y dyddiad</i>).
NP11	Bydd (<i>drysau</i>) (<i>ffenestri</i>) (<i>agoriadau</i>) (<i>awryddion</i>) (<i>brics awyru</i> (<i>gwyntyllau</i>)) yn adeiladwaith allanol y safle'n cael eu (<i>selio</i>) (<i>trin</i>) yn acwstig er boddhad yr Awdurdod Trwyddedu erbyn (<i>rhowch y dyddiad</i>).

NP12	Bydd (<i>cyntedd dal sain/drws acwstig/drws sy'n cau'n awtomatig</i>) yn cael ei osod yn (<i>disgrifiwch y lleoliad</i>) er boddhad yr Awdurdod Trwyddedu erbyn (<i>rhowch y dyddiad</i>).
NP13	Dyfeisiau cyfyngu ar sŵn Os bydd swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dod ar draws sŵn ar lefel sy'n achosi aflonyddwch afresymol i feddianwyr unrhyw eiddo yn y cyffiniau, bydd dyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl offer mwyhau sain a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r safle.
NP14	Bydd dyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl offer mwyhau sain a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r drwydded safle.
NP15	Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu a'i gosod ar lefel a gymeradwyir gan yr Awdurdod Trwyddedu (<i>mewn ymgynghoriad ag Is-adran Rheoli Llygredd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</i>) o fewn mis o'r adeg pryd y mae'r Awdurdod Trwyddedu neu Is-adran Rheoli Llygredd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhoi gwybod bod y cyfryw ddyfais yn ofynnol.
NP16	Gall y ddyfais cyfyngu ar sŵn gael ei hailosod gydag awdurdod un o swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn unig.
NP17	Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei hailosod gan un o swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, os bernir bod angen gwneud hynny.
NP18	Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu mewn modd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â hi.
NP19	Monitro Bydd y rheolwr, y deiliad trwydded neu unigolyn cymwys arall yn arsylwi yng nghyffiniau'r eiddo yn (<i>rhowch y lleoliad</i>), o leiaf (<i>rhowch y cyfnod e.e. bob awr</i>) rhwng (<i>rhowch yr amser dechrau</i>) a (<i>rhowch yr amser gorffen</i>) tra bod y Drwydded
	Safle'n cael ei harfer i weld a oes sŵn yn dod o'r safle. Os canfyddir bod sŵn yn dod o'r safle ar lefel sy'n debygol o achosi aflonyddwch i feddianwyr eiddo yn y cyffiniau, bydd uchder y gerddoriaeth yn cael ei leihau i lefel nad yw'n achosi aflonyddwch. Bydd cofnod o'r arsylwadau hyn yn cael ei gadw mewn llyfr at y diben hwnnw, a bydd y cyfryw lyfr yn cael ei gwblhau'n syth ar ôl yr arsylwi gan nodi amser, lleoliad a hyd yr arsylwi, lefel y sŵn a oedd yn dod o'r safle ac unrhyw gamau a gymerwyd i'w lleihau. Rhaid i'r cyfryw lyfr fod ar gael bob amser ar gais gan un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
NP20	Gwaith Ynysu Sain Bydd cynllun manwl o waith ynysu sain yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y manylion cymeradwy'n cael eu rhoi ar waith yn llawn cyn i'r drwydded safle ddechrau.

NP21	Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno sy'n amlinellu ac yn argymhell cynllun gwaith ynysu sain ar gyfer yr adeiledd gwahanu rhwng y safle trwyddedig a'r defnydd preswyl (<i>cyfagos</i>) (<i>uchod</i>). Bydd yr adroddiad yn ystyried: y potensial i sŵn ddod o'r adeilad ac uchder a natur y gerddoriaeth a ddymunir gan y safle yn ôl pob tebyg. Bydd yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd yr holl waith a argymhellir yn cael ei gwblhau cyn i'r drwydded safle ddechrau.												
NP22	Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno sy'n manylu ar y potensial i sŵn o (<i>nodwch</i>) (<i>cerddoriaeth wedi'i mwyhau</i>) (<i>peiriannau rheweiddio</i>) (<i>awyru</i>) (<i>aerdymheru</i>) (<i>arall</i>) yn y safle effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn yn (<i>rhowch y cyfeiriad</i>). Os yw'r asesiad yn dangos bod sŵn o'r safle'n debygol o effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn, bydd yr adroddiad yn cynnwys cynllun lliniaru sŵn manwl sy'n dangos na fydd y safle trwyddedig yn achosi niwsans i feddianwyr eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn.												
NP23	Bydd yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a bydd yr holl waith a argymhellir yn cael ei gwblhau cyn i'r drwydded safle ddechrau.												
NP24	Bydd pob mynedfa'n arwain at gyntedd lle y ceir 2 ddrws ar wahân sy'n eu cau eu hunain.												
NP25	Bydd yr holl seinyddion mewnol wedi'u cysylltu wrth leiniau wal annibynnol ac nid wrth y nenfwd.												
NP26	Bydd yr holl seinyddion wedi'u gosod ar fracedi seinyddion sy'n cynnwys mowntiau rwyber ynysu.												
NP27	Bydd unrhyw finiau bas wedi'u gosod o fewn amgaeadau acwstig sy'n ynysu'r seinydd o adeiledd yr adeilad.												
NP28	Bydd deiliad y drwydded safle'n cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwsmeriaid sy'n defnyddio unrhyw ardaloedd allanol (<i>fel terasau a gerddi cwrw</i>) yn gwneud hynny mewn modd tawel a threfnus.												
NP29	<p>Ni chaniateir i sŵn o'r safle fynd yn fwy na'r lefelau sŵn canlynol a fynegir fel [<i>x munud LAeq</i>] yn [<i>y lleoliad penodol</i>].</p> <table border="1" data-bbox="300 1639 1385 1809"> <tr> <td>Amrediad Amledd</td> <td>O a awr i b awr</td> <td>O y awr i z awr</td> </tr> <tr> <td>(Amrediad cyfan)</td> <td>x dBA</td> <td>y dBA</td> </tr> <tr> <td>(band wythfed 63Hz)</td> <td>x dB</td> <td>y dB</td> </tr> <tr> <td>(band wythfed 125 Hz)</td> <td>x dB</td> <td>y dB</td> </tr> </table>	Amrediad Amledd	O a awr i b awr	O y awr i z awr	(Amrediad cyfan)	x dBA	y dBA	(band wythfed 63Hz)	x dB	y dB	(band wythfed 125 Hz)	x dB	y dB
Amrediad Amledd	O a awr i b awr	O y awr i z awr											
(Amrediad cyfan)	x dBA	y dBA											
(band wythfed 63Hz)	x dB	y dB											
(band wythfed 125 Hz)	x dB	y dB											
NP30	<p>Gwaith Ynysu Sain</p> <p>Bydd cynllun manwl o waith ynysu sain yn cael ei gyflwyno i'r cyngor a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd. Bydd y gwaith cymeradwy'n cael ei gwblhau'n llawn cyn i unrhyw adloniant rheoledig ddechrau pe roddid y Drwydded Safle.</p>												

NP31	<p>Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno sy'n amlinellu ac yn argymhell cynllun o waith ynysu sain ar gyfer y pared rhwng y safle trwyddedig a defnydd preswyl cyfagos. Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried y sŵn sy'n dianc o'r adeilad ac uchder a natur y gerddoriaeth a ddymunir gan y safle yn ôl pob tebyg. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd, a bydd yr holl waith a argymhellir yn cael ei gwblhau'n llawn cyn i unrhyw adloniant rheoledig ddechrau pe roddid y Drwydded Safle.</p> <p><i>Cyfarwyddyd</i></p> <p><i>Bydd yr asesiad sŵn yn cael ei gynnal gan ymgynghorydd/peiriannydd acwstig sydd â chymwysterau priodol a bydd yn ystyried darpariaethau Cyfarwyddyd Polisi Cynllunio 24: Cynllunio a Sŵn, BS4142: 1997. 'Dull o raddio sŵn diwydiannol sy'n effeithio ar ardaloedd preswyl a diwydiannol cymysg' a BS 8233: 1999 'Ynysu Sain ac Ynysu Sŵn ar gyfer Adeiladau – Cod Ymarfer'.</i></p> <p><i>Mae'r meini prawf dylunio a argymhellir ar gyfer anheddau fel a ganlyn:</i> <i>Yn ystod y dydd (07.00 – 23.00) LAeq (16 awr) 35 dB a Chromlin Graddfa Sŵn NR35 ym mhob ystafell. Yn ystod y nos (23.00 – 07.00) LAeq (8 awr) 30 dB a Chromlin Graddfa Sŵn NR20 i NR25 mewn ystafelloedd gwely.</i></p>
NP32	<p>(i) Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno sy'n manylu ar y potensial i sŵn o (nodwch – cerddoriaeth wedi'i mwyhau, peiriannau rheweiddio, gwresogi, awyru ac aerdymheru ac ati) yn y safle effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn yn (nodwch).</p> <p>(ii) Os yw'r asesiad yn dangos bod sŵn o'r safle'n debygol o effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn, bydd yn cynnwys cynllun manwl o fesurau lliniaru sŵn i ddangos na fydd sŵn o'r safle trwyddedig yn achosi niwsans i feddianwyr eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn.</p> <p>(iii) Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd, a bydd yr holl waith a argymhellir yn cael ei gwblhau'n llawn cyn i unrhyw adloniant rheoledig ddechrau pe roddid y Drwydded Safle.</p> <p><i>Cyfarwyddyd</i></p> <p><i>Bydd yr asesiad sŵn yn cael ei gynnal gan ymgynghorydd/peiriannydd acwstig sydd â chymwysterau priodol a bydd yn ystyried darpariaethau Cyfarwyddyd Polisi</i></p>
	<p><i>Cynllunio 24: Cynllunio a Sŵn, BS4142: 1997. 'Dull o raddio sŵn diwydiannol sy'n effeithio ar ardaloedd preswyl a diwydiannol cymysg' a BS 8233: 1999 'Ynysu Sain ac Ynysu Sŵn ar gyfer Adeiladau – Cod Ymarfer'.</i></p> <p><i>Mae'r meini prawf dylunio a argymhellir ar gyfer anheddau fel a ganlyn:</i> <i>Yn ystod y dydd (07.00 – 23.00) LAeq (16 awr) 35 dB a Chromlin Graddfa Sŵn NR35 ym mhob ystafell. Yn ystod y nos (23.00 – 07.00) LAeq (8 awr) 30 dB a Chromlin Graddfa Sŵn NR20 i NR25 mewn ystafelloedd gwely.</i></p>

NP33	Er mwyn gwella gwanhad sain y safle, bydd gwydriad <i>[dwbl/eilaidd]</i> yn cael ei osod ar y <i>[drysau/fffenestri]</i> yn <i>[nodwch]</i> er boddhad un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd.
NP34	Rhaid i <i>[agoriadau/nodwch]</i> yn adeiladwaith allanol y safle gael eu selio'n acwstig er boddhad un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd.
NP35	Bydd <i>[cyntedd dal sain / drws acwstig / drws sy'n cau'n awtomatig]</i> yn cael ei osod yn <i>[disgrifiwch y lleoliad]</i> er boddhad un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd.
NP36	<p>Dyfais Cyfyngu ar Sŵn <i>Angen cyfyngwr o ddechrau'r Drwydded Safle – mae'n bosibl y bydd angen yr amod hwn pan gyflwynir sylwadau neu os yw'r drwydded yn cael ei hadolygu.</i></p> <p>(i) Bydd dyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl offer mwyhau sain a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r drwydded safle.</p> <p>(ii) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu a'i gosod ar lefel a gymeradwyir gan y cyngor trwy ei swyddog iechyd yr amgylchedd awdurdodedig cyn i'r safle agor yn unol â'r drwydded safle.</p> <p>(iii) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu mewn modd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â hi.</p> <p>(iv) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei hailosod dim ond gyda chaniatâd y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd.</p> <p>Os bernir bod hynny'n angenrheidiol, bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei hailosod i lefel a gymeradwywyd y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd o fewn 14 diwrnod o'r adeg hysbysu.</p>
NP37	<p><i>(Amod ynglŷn â chyfyngwr a sbardunir os tystiwyd y niwsans yn unig)</i></p> <p>(i) Os bydd swyddogion y cyngor yn tystio sŵn ar lefel sy'n achosi aflonyddwch afresymol i feddianwyr unrhyw eiddo yn y cyffiniau, bydd dyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl offer mwyhau sain a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Drwydded Safle.</p> <p>(ii) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu a'i gosod ar lefel a gymeradwywyd gan y Cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd o fewn mis o'r adeg pryd y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rhoi gwybod bod y cyfryw ddyfais yn ofynnol.</p> <p>(iii) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu mewn modd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â hi.</p> <p>(iv) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei hailosod dim ond gyda chaniatâd y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd.</p> <p>(v) Os bernir bod hynny'n angenrheidiol, bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei</p>
	hailosod i lefel a gymeradwywyd y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd o fewn 14 diwrnod o'r adeg hysbysu.

NP38	<p>(Cyfyngwr wedi'i osod eisoes)</p> <p>(i) Bydd dyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl offer mwyhau sain a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r drwydded safle.</p> <p>(ii) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chadw ar y gosodiadau a gymeradwywyd gan y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd ar (<i>Dyddiad</i>).</p> <p>(iii) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei chysylltu mewn modd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â hi.</p> <p>(iv) Bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei hailosod dim ond gyda chaniatâd y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd.</p> <p>(v) Os bernir bod hynny'n angenrheidiol, bydd y ddyfais cyfyngu ar sŵn yn cael ei hailosod i lefel a gymeradwywyd y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd o fewn 14 diwrnod o'r adeg hysbysu.</p>
NP39	<p>Monitro</p> <p>(i) Bydd y rheolwr, y trwyddedai neu unigolyn cymwys arall yn cynnal arsylwadau yng nghyffiniau'r eiddo yn [<i>nodwch</i>], ar gyfnodau o leiaf [<i>nodwch</i>] rhwng [<i>nodwch</i>] a [<i>nodwch</i>] tra bod cerddoriaeth fyw, <i>karaoke</i> neu DJs sy'n chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn digwydd i weld a oes sŵn yn dod o'r safle.</p> <p>(ii) Os canfyddir bod sŵn yn dod o'r safle ar lefel sy'n debygol o achosi aflonyddwch i feddianwyr eiddo yn y cyffiniau, bydd uchder y gerddoriaeth yn cael ei leihau i lefel nad yw'n achosi aflonyddwch.</p>
NP40	<p>(i) Bydd cofnod o'r arsylwadau hyn yn cael ei gadw mewn llyfr at y diben hwnnw, a bydd y cyfryw lyfr yn cael ei gwblhau'n syth ar ôl yr arsylwi gan nodi amser, lleoliad a hyd yr arsylwi, lefel y sŵn a oedd yn dod o'r safle ac unrhyw gamau a gymerwyd i'w lleihau.</p> <p>(ii) Rhaid i'r cyfryw lyfr fod ar gael bob amser ar gais gan heddwes neu un o swyddogion yr awdurdod lleol.</p>
NP41	<p>Digwyddiadau Untro</p> <p>Bydd y trefnydd yn penodi ymgynghorydd rheoli sŵn sydd â chymwysterau a phrofiad priodol a gymeradwywyd gan y cyngor trwy un o swyddogion awdurdodedig y Tîm Rheoli Llygredd o leiaf (nodwch) wythnos cyn y digwyddiad. Bydd yr ymgynghorydd rheoli sŵn yn cysylltu â'r holl bartïon, gan gynnwys yr hyrwyddwr a'r peiriannydd sain a'r Awdurdod Trwyddedu ac ati ynglŷn â'r holl faterion yn ymwneud â rheoli sŵn cyn ac yn ystod y digwyddiad. Mae'n rhaid i'r ymgynghorydd fod yn brofiadol ym maes lledaeniad a rheolaeth sŵn, yn enwedig o ran digwyddiadau cerddoriaeth.</p>
NP42	<p>Bydd y terfynau rheoli a osodir wrth y safle cymysgu'n ddigonol i sicrhau nad yw'r Lefel Sŵn Cerddoriaeth (MNL) yn mynd yn fwy na LAeq (15 munud) o (nodwch) dros gyfnod o 15 munud yn y safle agosaf sy'n sensitif i sŵn drwy gydol y digwyddiad.</p>
NP43	<p>Bydd prawf lledaeniad sŵn yn cael ei gynnal ar adeg i'w chytuno cyn i'r digwyddiad ddechrau er mwyn pennu terfynau rheoli priodol wrth y safle cymysgu sain. Bydd y</p>

	system sain yn cael ei ffurfweddu a'i gweithredu mewn modd tebyg i'r hyn a fwriedir ar gyfer y digwyddiad.
NP44	Bydd y trefnydd yn sicrhau bod yr hyrwyddwr, y cyflenwr sain a'r holl beirianwyr sain unigol yn cael gwybod am y terfynau rheoli sain.
NP45	Bydd mesurydd cofnodi lefel sŵn yn cael ei osod wrth y ddesg gymysgu fel bod yr ymgynghorydd sŵn a'r peirianwyr sain yn gallu sicrhau nad eir yn fwy na'r lefelau sŵn a bennwyd o flaen llaw. Rhoddir canlyniadau'r gwaith monitro i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 10 niwrnod gwaith yn dilyn y digwyddiad.
NP46	Yn ystod y digwyddiad, bydd yr ymgynghorydd sŵn yn monitro lefelau sŵn yn (nodwch) ac yn unrhyw safleoedd eraill lle y mae'r cyngor yn barnu bod hynny'n angenrheidiol yn ystod y digwyddiad.
NP47	Bydd yr ymgynghorydd yn gallu cysylltu â'r ddesg gymysgu a chynghori'r peiriannydd sain i sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu'n gallu cysylltu â'r ymgynghorydd a'r peiriannydd sain drwy gydol y digwyddiad ac yn ystod y gwiriadau sain. Rhoddir canlyniadau'r gwaith monitro i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 10 niwrnod gwaith yn dilyn y digwyddiad.
NP48	Bydd union amserau'r holl wiriadau sain a pherfformiadau'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu a'u cymeradwyo ganddo o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn y digwyddiad. (Er mwyn peidio ag aflonyddu ar feddianwyr (nodwch), ni chaniateir cynnal gwiriadau sain cyn (nodwch yr amser).
NP49	Bydd manylion amser, dyddiad a hyd paratoi a datgysylltu'r llwyfan a gweithgareddau cysylltiedig eraill sy'n cynhyrchu sŵn (gwaredu gwastraff, darparu a gwacáu tai bach, generaduron, ac ati) y tu allan i amserau'r perfformiadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu a'u cymeradwyo ganddo o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn y digwyddiad.
NP50	Bydd yr holl breswylwyr lleol y mae sŵn o'r digwyddiad yn debygol o effeithio arnynt yn cael gwybod yn ysgrifenedig am: <ul style="list-style-type: none"> (i) Union amserau'r holl berfformiadau a gwiriadau sain. (ii) Enw a rhif ffôn cyswllt pe ddymument gwyno ynghylch sŵn.
NP51	Bydd meddianwyr y safleoedd a nodir isod yn cael gwybod yn ysgrifenedig, o leiaf 10 niwrnod cyn y digwyddiad, am yr union amserau pryd y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ac enw a rhif ffôn cyswllt pe ddymument gwyno ynghylch sŵn (nodwch y cyfeiriadau).
NP52	Tra bo'r digwyddiad yn cael ei gynnal, bydd y trwyddedai, trefnydd y digwyddiad neu unigolyn cymwys arall yn cynnal arsylwadau yng nghyffiniau'r digwyddiad i asesu lefel y sŵn. Os canfyddir bod sŵn yn aflonyddu ar feddianwyr safleoedd yn y cyffiniau, bydd camau priodol yn cael eu cymryd i reoli lefel y sŵn er mwyn peidio ag aflonyddu ar breswylwyr lleol.

NP53	Bydd seinyddion yn cael eu cyfeirio yn y fath fodd fel bod yr holl sain yn cael ei chyfeirio i ffwrdd oddi wrth eiddo preswyl a thuag at (nodwch).
NP54	Sŵn Cwsmeriaid Ac eithrio i fynd i mewn ac allan, bydd yr holl ddrysau a ffenestri'n cael eu cadw ar gau ar ôl (nodwch) o'r gloch.
NP55	Mae'n rhaid arddangos hysbysiadau eglur ym mhob man lle y bydd cwsmeriaid yn gadael yr adeilad sy'n eu cyfarwyddo i barchu anghenion preswylwyr lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel.
NP56	Ni chaniateir i gwsmeriaid ddefnyddio'r (ardd/patio) ar ôl (nodwch) o'r gloch.
NP57	Mae'n rhaid i'r maes parcio gael ei gloi er mwyn atal mynediad at geir cwsmeriaid rhwng (nodwch) a (nodwch), cyn belled ag nad yw cloi'r maes parcio'n effeithio ar unrhyw fodd o ddianc neu unrhyw gynllun gwacáu.
NP58	Ni chaniateir yfed diodydd a brynwyd yn y safle y tu allan i'r safle.
NP59	Ni chaniateir yfed diodydd mewn unrhyw ardaloedd awyr agored/penodol ar ôl (nodwch) o'r gloch.
NP60	Ni chaniateir i gwsmeriaid na staff ddefnyddio unrhyw ardaloedd awyr agored (o flaen/ying nghefn) y safle ar ôl 22.00 o'r gloch.
NP61	Bydd goruchwyliwr y safle, y rheolwr neu unigolyn cymwys arall yn rheoli unrhyw ardal awyr agored er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn ymddwyn mewn modd swnllyd, stwrlllyd neu sarhaus.
NP62	Mae'n rhaid arddangos hysbysiadau eglur mewn mannau amlwg yn yr holl ardaloedd awyr agored yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am ofynion y mannau hynny (nodwch h.y. dim diodydd, oriau defnydd, ac ati) ac yn gofyn iddynt barchu anghenion preswylwyr lleol ac ymddwyn mewn modd tawel a threfnus.
NP63	Bydd hysbysiad eglur yn cael ei arddangos wrth unrhyw allanfa i'r safle yn cyfarwyddo cwsmeriaid i barchu anghenion preswylwyr lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel.
NP64	Ni chaniateir yfed diodydd a brynwyd yn y safle o gynwysyddion agored y tu allan i flaen y safle.
NP65	Ni chaniateir defnyddio unrhyw offer chwarae chwyddedig heb gytundeb yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â'i oriau defnydd ac amodau eraill a allai fod yn briodol.

NP66	<p>Sŵn o beiriannau ac offer</p> <p>Ni chaiff sŵn o unrhyw beiriannau neu offer awyru, rheweiddio neu aerdymheru achosi niwsans i feddianwyr unrhyw eiddo yn y cyffiniau.</p> <p>Argymhelliad:</p> <p>a) Ni chaiff lefel raddfa unrhyw sŵn o unrhyw beiriant sefydlog fynd yn fwy na'r lefel sŵn cefndir gan fwy na 0dB yn yr eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn fel a bennir gan <i>BS 4142: 1997 Dull graddio sŵn diwydiannol sy'n effeithio ar ardaloedd preswyl a diwydiannol cymysg</i> ar unrhyw adeg.</p> <p>b) Dylid defnyddio mowntiau gwrthdirgryniad i wahanu peiriannau o adeileddau sefydlog, a dylid defnyddio cysylltydd hyblyg i gysylltu'r fflw â'r wyntyll os oes posibilrwydd o drawsyrro dirgryniad i unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn. Bydd angen i unrhyw systemau gael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd hefyd er mwyn lleihau sŵn mecanyddol.</p>
	<p><i>Gellir cael cyfarwyddyd ar yr uchod yn 'Cyfarwyddyd ar Reoli Arogleuon a Sŵn o System Wacáu Cegin Fasnachol' a gyhoeddwyd yn electronig gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Cod Cynnyrch PB10527.</i></p>
NP67	<p>Arwyddion. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn amlwg yn y safle yn gofyn i gwsmeriaid barchu preswylwyr lleol a gadael y safle'n dawel.</p>

OA ADLONANT RHEOLEDIG YN YR AWYR AGORED

Bydd amodau unigryw ynghlwm wrth ddigwyddiad awyr agored i fodloni gofynion penodol yr Awdurdod Trwyddedu neu ei Awdurdodau Cyfrifol yn dibynnu ar y safle, y math o adloniant sydd i'w gynnal a'r gynulleidfa ddisgwyliedig.

PP	PERFFORMIADAU DRAMA – YN GYMWYS DIM OND OS OES MWY NA 500 O BOBL YN Y GYNULLEIDFA
PP01	Bydd yr holl setiau, sy'n golygu'r holl lieiniau, dillad, llieiniau rhwylllog, addurniadau crog, llenni, addurniadau ffabrig ac addurniadau blodeuol, a'r holl eiddo o ba fath bynnag ar y llwyfan, yn wrthfflam a byddant ar gael i'w profi gan swyddogion yr Awdurdod Tân.
PP02	Bydd setiau (ac eithrio'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y cynhyrchiad cyfredol) yn cael eu cadw mewn storfa setiau ac eiddo briodol yn unig.
PP03	Bydd rhaffau sydd wedi'u cysylltu â gwrthbwysau'n cael eu profi gan unigolyn cymwys a benodwyd gan ddeiliad y drwydded safle mor aml ag a allai fod yn angenrheidiol i warchod rhag methiant, a pha un bynnag o leiaf unwaith bob deuddeg mis.
PP04	Pan fydd ysmygu'n hanfodol i'r perfformiad, bydd y cyfryw ragofalon ychwanegol ag a allai fod yn ofynnol gan yr Awdurdod Trwyddedu'n cael eu dilyn yn fanwl gywir.
PP05	Bydd llen ddiogelwch agoriad y proseniwm yn cael ei gostwng a'i chodi ym mhresenoldeb pob cynulleidfa.

PP06	Os na fydd y llen ddiogelwch yn gweithio, bydd y trwyddedai'n rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Tân ar unwaith.
PP07	Pryd bynnag y gostyngir y llen ddiogelwch, bydd goleuadau digonol yn cael eu goleuo ar unwaith fel bod yr awditoriwm yn cael ei oleuo'n dda yn gyffredinol.
PP08	Ni chaniateir i unrhyw set na chyfarpar o unrhyw fath groesi llinell ddisgyn y llen ddiogelwch ar unrhyw adeg yn ystod y perfformiad, nac ymyrryd â'i disgyniad mewn unrhyw amgylchiadau.
PP09	Ac eithrio gyda chaniatâd yr Awdurdod Trwyddedu, ni chaniateir i setiau nac eiddo gael eu gosod ar ochr yr awditoriwm o'r llen ddiogelwch.

PS SAFLE – DIOGELWCH

PS01	Bydd goleuadau allanol yn cael eu gosod, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, mewn lleoliad sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ar lety preswyl yng nghyffiniau'r safle
	trwyddedig ar yr un pryd â chynnal lefel ddigonol o olau er mwyn i gwsmeriaid a phobl a gyflogir yn y safle fynd i mewn ac allan yn ddiogel.
PS02	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod maes parcio'r safle'n cael ei oleuo ar bob adeg briodol ond bod goleuadau allanol yn cael eu gosod, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, mewn lleoliad sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ar lety preswyl yng nghyffiniau'r safle trwyddedig ar yr un pryd â chynnal lefel ddigonol o olau er mwyn i gwsmeriaid a phobl a gyflogir yn y safle fynd i mewn ac allan yn ddiogel.
PS03	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y giat rwystr i'r maes parcio'n cael ei chau'n ddiogel ar bob adeg briodol, cyn belled ag nad yw hynny'n effeithio ar unrhyw fodd o ddianc neu gynllun gwacáu.
PS04	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y larwm tresmaswyr yn cael ei gynnal a'i gadw a'i weithredu yn y safle.
PS05	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y safle'n aelod o unrhyw Gynllun Gwarchod Tafarndai sy'n gweithredu'n lleol.
PS06	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod arwyddion yn cael eu harddangos yn briodol yn y safle yn cynghori cwsmeriaid i beidio â gadael unrhyw eiddo heb neb yn gofalu amdano.
PS07	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod polisi chwilio cofnodedig ar waith yn y safle. Bydd unrhyw chwiliadau'n cael eu cynnal gan bobl o'r un rhyw yn unig. Bydd staff yn cael eu hyfforddi ar y gweithdrefnau priodol a bydd cofnodion yn cael eu cadw mewn llyfr rhwymedig. Bydd yr holl ddogfennau'n cael eu dangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais.

PS08	Bydd cyffuriau ac arfau a atafaelwyd yn cael eu rhoi mewn cynhwysydd dan glo a neilltuwyd at y diben hwn. Bydd y modd o gloi neu ddatgloi'r cynhwysydd yn cael ei gadw gan ddeiliad y drwydded safle neu'r goruchwylwr safle dynodedig neu, yn eu habsenoldeb hwy, unrhyw unigolyn cyfrifol arall. Bydd cofnod yn cael ei wneud o'r atafaeliad, yr amser, y dyddiad a chan bwy, ac i bwy y rhoddwyd yr eitemau, mewn llyfr rhwymedig a gedwir at y diben hwnnw'n benodol. Bydd y cyfryw lyfr yn cael ei ddangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais. Bydd deiliad y drwydded safle'n gwneud trefniadau addas gyda'r Heddlu i gasglu unrhyw eitemau a atafaelwyd.
PS09	<i>Mae'r amod hwn wedi'i fwriadu ar gyfer safleoedd problemus</i> Bydd sganwyr metel a ddelir yn y llaw yn cael eu defnyddio yn y safle yn ystod yr holl oriau masnachu, a cheir defnyddio sganwyr metel eraill, fel datgelyddion metel sefydlog, ym mhob mynedfa hefyd. Bydd datgelyddion yn cael eu gweithredu gan oruchwylwyr drws neu staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol pan na fydd goruchwylwyr drws ar ddyletswydd, a bydd y cyfryw ddatgelyddion ar waith pan fydd unrhyw weithgarwch trwyddedadwy'n digwydd. Bydd datgelyddion sefydlog yn cael eu gosod er boddhad yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu.
PS10	Bydd cofnodlyfr adrodd am ddigwyddiadau'n cael ei gadw yn y safle bob amser a'i ddangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl yn syth ar gais. Bydd yn cynnwys manylion y bobl gysylltiedig, disgrifiad o'r digwyddiad, yr amser a'r dyddiad, y camau a gymerwyd a chanlyniad terfynol y
	sefyllfa.
PS11	Bydd gwirodydd yn cael eu lleoli (rhowch y lleoliad), a bydd yr holl ddiodydd alcoholig eraill yn cael eu harddangos mewn man nad yw wedi'i guddio o olwg cyson yr ariannwr / staff gan ffitiadau eraill. (Os yw hyn yn rhesymol ymarferol oherwydd rheweidio neu gyfyngiadau eraill, ymgynghorir â'r Awdurdod Trwyddedu ynglŷn â lleoliadau eraill addas yn y safle).
PS12	Bydd y gofyniad am bresenoldeb swyddog diogelwch yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ac adolygiad gan yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu. Ar yr adegau hynny pan fernir bod angen staff diogelwch, byddant yn y safle rhwng (rhowch yr oriau) bob dydd.
PS13	Bydd yr angen am swyddogion diogelwch yn cael ei asesu gan y deiliad trwydded / goruchwylwr safle dynodedig yn rheolaidd a bydd swyddogion diogelwch yn cael eu cyflogi pan fydd yr asesiad yn dangos bod angen hynny. Fodd bynnag, bydd o leiaf un swyddog diogelwch penodol sydd wedi'i gofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) (neu gynllun achredu arall a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu) yn cael ei gyflogi yn y safle.
PS14	Bydd deiliad y drwydded safle'n rhoi manylion cyswllt ar gyfer unrhyw bersonél diogelwch a gyflogir yn y safle i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl ar gais.

PW CYSWLLT Â'R HEDDLU, GWARCHOD TAFARNDAI NEU GYNLLUNIAU TEBYG

PW01	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau ei fod yn cymryd rhan mewn unrhyw gynllun Gwarchod Tafarndai neu gynllun tebyg sydd ar waith yn ardal y safle trwyddedig.
PW02	Yn amodol ar roi rhybudd rhesymol na fydd yn llai na saith diwrnod, ac eithrio mewn argyfwng, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau ei fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod a gynullir gan yr Heddlu i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r safle.

RL CYSYLLTIADAU RADIO

RL01	Bydd y safle'n cael ei gynnwys yn y cynllun Storenet, neu Warchod Tafarndai, neu gynllun tebyg sydd ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
RL02	Sicrheir bod yr offer radio'n gweithio bob amser.
RL03	Bydd yr offer radio ar gael i'r goruchwyliwr safle dynodedig neu aelod cyfrifol o staff, ac yn cael ei fonitro ganddo, ar bob adeg pan fo'r safle ar agor i'r cyhoedd.
RL04	Cydymffurfir ag unrhyw orchymyn / cyfarwyddyd gan yr Heddlu a dderbynnir trwy'r cynllun radio pryd bynnag y'i rhoddir.
RL05	Bydd y goruchwyliwr safle dynodedig neu aelod cyfrifol o staff yn defnyddio'r offer radio i adrodd am bob achos o drosedd neu anhrefn i bwynt cyswllt cytunedig yn yr Heddlu.

SA RHEOLAETHAU AR GYFER GWERTHU ALCOHOL

SA01	Bydd yr holl staff yn cael eu hyfforddi i atal gwerthiannau dan oed hyd at lefel sy'n gymesur â'u dyletswyddau. Bydd yr holl hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddiweddarau fel y bo'r angen, er enghraifft pan fydd deddfwriaeth yn newid, a dylai gynnwys hyfforddiant ar sut i ymdrin â chwsmeriaid anodd. Dylai'r hyfforddiant gael ei gofnodi'n eglur a'i lofnodi a'i ddyddio gan yr hyfforddwr a'r aelod o staff sy'n ei dderbyn. Bydd y dogfennau ar gael i'w harchwilio ar gais gan un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
SA02	(a) Bydd cynllun prawf oedran cymeradwy'n cael ei fabwysiadu, ei weithredu a'i hysbysebu yn y safle, fel 'Herio 25', sy'n golygu y gofynnir am fath derbyniol o brawf adnabod ffotograffig cyn gwerthu unrhyw alcohol i unrhyw unigolyn sy'n edrych yn iau na 25 oed. Bydd prawf oedran derbyniol yn cynnwys cerdyn adnabod sy'n dangos llun o'r cwsmer, ei ddyddiad geni a marc holograffig neu fesur diogelwch annatod. Byddai prawf adnabod addas yn cynnwys cerdyn prawf oedran a gymeradwywyd gan PASS, trwydded yrru gyda llun a phasbort. Bydd deunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am weithrediad y cynllun Herio 25 yn cael eu harddangos yn y safle, gan gynnwys arwydd Herio 25 o faint A5 o leiaf wrth fynedfa'r safle ac wrth bob man gwerthu, lle y bo'n ymarferol.

SA03	Bydd deiliad y drwydded safle'n mynnu bod y goruchwyliwr safle dynodedig, neu unigolyn cyfrifol arall yn ei absenoldeb, yn cadw cofnodlyfr 'digwyddiadau / gwrthodiadau' mewn llyfr rhwymedig lle y cofnodir manylion llawn pob digwyddiad. Bydd hyn yn cynnwys manylion unrhyw werthiannau a wrthodwyd a manylion y bobl dan sylw, disgrifiad o'r digwyddiad, yr amser a'r dyddiad, y camau a gymerwyd a chanlyniad terfynol y sefyllfa. Fe'i cwblheir cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, dim hwyrach na diwedd busnes ar ddiwrnod y digwyddiad. Bydd amser a dyddiad cwblhau'r adroddiad, a chan bwy, yn rhan o'r cofnod. Rhaid i'r cofnodlyfr gael ei gadw yn y safle bob amser a'i ddangos i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl pan fydd angen.
SA04	Bydd y safle'n cael ei glirio o gwsmeriaid o fewn 30 munud o'r cyflenwad alcohol olaf ar unrhyw ddiwrnod.
SA05	Bydd diod feddwol yn cael ei gwerthu a'i chyflenwi i gwsmeriaid sy'n eistedd i gael pryd wrth fwrdd yn unig, fel ategolyn i'r pryd bwyd hwnnw.
SA06	Bydd yr holl staff sy'n gyfrifol am gyflenwi neu werthu alcohol yn effro i oedolion sy'n ceisio prynu alcohol ar ran bobl sy'n iau na 18 oed, a byddant yn gwrthod y cyfryw werthiannau pan fyddant yn amau bod hyn ar fin digwydd.
SA07	Bydd yr holl staff sy'n gyfrifol am gyflenwi neu werthu alcohol yn effro i oedolion sy'n ceisio prynu alcohol ar ran bobl sy'n iau na 18 oed, a byddant yn gwrthod y cyfryw werthiannau pan fyddant yn amau bod hyn ar fin digwydd, yn amodol ar yr eithriadau o dan Adran 149 (5) Deddf Trwyddedu 2003 sy'n caniatáu i gwrw, seidr neu win gael ei brynu i unigolyn 16 neu 17 oed, cyn belled â bod y cwrw, y seidr neu'r gwin i'w yfed gyda phryd wrth fwrdd a bod yr unigolyn yng nghwmni unigolyn 18 oed neu hŷn.

SE DARPARIAETHAU YN YMWNEUD AG ADLONIAINT I OEDOLION	
SE01	Bydd stripio neu fathau o adloniant i oedolion yn cael eu cynnal mewn ardaloedd dynodedig a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn unig. Bydd trefniadau ar gyfer mynediad i'r ystafell wisgo'n cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu a'u cynnal bob amser tra bod stripio'n digwydd ac yn union wedi hynny.
SE02	Tra bod adloniant stripio'n digwydd, ni chaniateir i unrhyw un iau na 18 oed gael mynediad i'r rhan honno o'r safle trwyddedig lle mae'r adloniant stripio'n digwydd ac ni chaniateir i'r rhan honno fod yn weladwy o rannau eraill o'r safle. Bydd hysbysiad eglur yn cael ei arddangos wrth bob mynedfa i'r safle mewn man amlwg fel y gellir ei ddarllen yn rhwydd gan bobl sy'n dod i mewn i'r safle, sy'n datgan y canlynol:- 'Ni chaiff unrhyw un iau na 18 oed fynd i mewn'.
SE03	Ni chaniateir i ddawnsyr nad ydynt yn perfformio fod heb ddillad amdanynt mewn unrhyw ardal y mae gan y cyhoedd fynediad iddi.
SE04	Caiff dawnswyr berfformio ar y llwyfan neu i gwsmeriaid sy'n eistedd yn unig.

SE05	Ni chaniateir i berfformwyr fod yn iau na 18 oed.
SE06	Ni chaiff deiliad y drwydded safle ganiatáu i ffotograffau neu ddelweddau eraill sy'n dangos ac yn awgrymu bod stripio neu ddawnsio tebyg yn digwydd yn y safle gael eu harddangos y tu allan i'r safle.
SE07	Bydd o leiaf (rhowch y rhif) o oruchwylwyr drws cofrestredig yn y safle pan fydd adloniant stripio'n digwydd.
SE08	Ni chaniateir unrhyw gysylltiad corfforol rhwng y cwsmer a'r perfformiwr cyn, yn ystod nac ar ôl y perfformiad heblaw am roi arian neu docynnau yn nwylo'r dawnsiwr, neu fod y cwsmer yn gosod arian papur mewn gardys a wisgir gan y perfformiwr at y diben hwnnw.
SE09	Ni chaniateir i ddeiliad y drwydded safle, perfformiwr nac unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â'r sefydliad neu reolaeth yr adloniant annog y gynulleidfa i daflu arian at y perfformwyr neu roi cildyrnau iddynt fel arall (ac eithrio yn unol ag SE08 uchod), na chaniatáu i'r gynulleidfa gael ei hannog felly.
SE10	Bydd perfformwyr benywaidd bob amser yn gwisgo 'g-string' a bydd perfformwyr gwrywaidd bob amser yn gwisgo dillad priodol i orchuddio eu horganau rhywiol yn ddigonol, ac ni chaniateir i'r dillad fod yn dryloyw na chael eu diosg.
SE11	Ni chaniateir i unrhyw berfformiwr ddangos unrhyw ran o'i organau rhywiol na'i anws ar unrhyw adeg.
SE12	Ni chaniateir i unrhyw weithred rywiol ddigwydd.
SE13	Bydd yr ardal arfaethedig ar gyfer stripio: <ul style="list-style-type: none"> (a) Mewn lleoliad lle na ellir gweld y perfformiad o'r stryd. (b) Mewn rhan ddynodedig o'r safle sydd wedi'i gwahanu oddi wrth y gynulleidfa. (c) Mewn lleoliad lle y bydd gan y perfformwyr fynediad uniongyrchol i'r ystafell
	wisgo heb fynd trwy'r gynulleidfa nac yn agos iddi.
SE14	Bydd yr adloniant yn cael ei ddarparu gan berfformwyr / difyrwyr yn unig ac ni chaniateir i'r gynulleidfa gymryd rhan.
SE15	Bydd unigolion sy'n ymddangos ar y llwyfan yn mynd yn uniongyrchol rhwng yr ystafell wisgo a'r ardal berfformio ddynodedig heb fynd trwy'r gynulleidfa nac yn agos iddi.
SE16	Bydd dawnsiwr stripio / ecsotig / adloniant i oedolion (gan gynnwys dawnsiwr bwrdd / glin / polyn) yn gwisgo'n syth ar ôl i bob perfformiad ddod i ben.

SE17	Caiff adloniant a ddarperir gan ddawnsywyr bronnoeth (yn unig) i gwsmeriaid sy'n eistedd wrth fyrddau ddigwydd yn y rhannau hynny o'r safle a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn unig. Ni chaniateir unrhyw gyfranogiad gan y gynulleidfa.
SE18	Os bydd cwsmer yn ceisio cyffwrdd â dawnsiwr, mae'n rhaid i'r dawnsiwr dynnu'n ôl a rhoi gwybod i'w r(h)eolwr / (g)oruchwyliwr am y mater.
SE19	Ni chaniateir i wybodaeth megis rhif ffôn, cyfeiriad na gwybodaeth a fyddai'n arwain at unrhyw gyfarfod arall gael ei throsglwyddo o gwsmer i ddawnsiwr nac fel arall.
SE20	Ni chaniateir i unrhyw ddawnsiwr berfformio os yw'n feddw.
SE21	Ni chaniateir i unrhyw aelod o'r cyhoedd ddod i mewn i'r ardal ddawnsio nac aros ynddi os yw'n ymddangos yn feddw.
SE22	Bydd holl aelodau'r cyhoedd yn aros yn eu seddau yn yr ardal ddawnsio heblaw pan fyddant yn cyrraedd, yn gadael neu'n mynd i'r tŷ bach neu'r bar.
SE23	Mae'n rhaid arddangos arwyddion wrth y fynedfa i'r ardal ddawnsio sy'n datgan: 'Bydd unrhyw gwsmer sy'n ceisio cyffwrdd â dawnsiwr yn cael cais i adael', Mae'n rhaid i'r arwyddion fod yn ddigon mawr, yn ddarllenadwy ac wedi'u lleoli mewn man lle y gall yr holl gwsmeriaid sy'n mynd i mewn i'r ardal ddawnsio eu darllen.
SE24	Ni chaniateir i unrhyw ddawnsiwr berfformio unrhyw weithred rywiol gignoeth neu anllad.
SE25	Tra bod dawnsio'n digwydd, bydd o leiaf (rhowch rif cytunedig) o Oruchwylwyr Drws sydd wedi'u cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch neu gynllun achredu arall a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu'n cael eu cyflogi yn y rhan o'r safle a ddefnyddir ar gyfer dawnsio oni bai bod trefniadau eraill wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu.
SE26	Bydd teledu cylch cyfyng yn cael ei osod ym mhob man lle y bydd dawnsio'n digwydd. Bydd yr holl gamerâu'n recordio'n barhaus tra bod y safle ar agor i'r cyhoedd.
SE27	Ni chaniateir adloniant stripio nac unrhyw adloniant ecsotig sy'n cynnwys noethni llawn yn y safle.

SE28	Ni chaniateir defnyddio'r safle ar gyfer unrhyw adloniant neu wasanaethau i oedolion, gweithgareddau neu fathau eraill o adloniant neu faterion sy'n ategol i ddefnyddio'r safle a allai arwain at bryder mewn perthynas â phlant, y mae defnyddiau gwaharddedig yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, noethni neu led- noethni, ffilmiau ar gyfer grwpiau oedran cyfyngedig neu unrhyw adloniant perthnasol (o fewn ystyr y drydedd atodlen i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, ac eithrio lle y caniateir hynny'n benodol o dan drwydded neu hawliliad a ganiatawyd neu a roddwyd o dan y ddeddfwriaeth honno.
------	--

Amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy wrth ddangos ffilmiau 'CYFYNGEDIG (18)'

Ni cheir dangos ffilmiau yn y categori 'CYFYNGEDIG (18)' mewn sinema sy'n gweithredu fel clwb yn unol ag amodau CE16 – CE25

SF CYFLEUSTERAU GLANWEITHIOL

SF01	Bydd cyfleusterau glanweithiol digonol yn cael eu darparu yn y safle naill ai yn unol â Safonau Technegol y Syrfewyr Dosbarth ar gyfer mannau adloniant neu safon BS6465 ar gyfer darpariaethau glanweithiol neu unrhyw Safon Brydeinig sy'n ei disodli neu'n ei diwygio.
SF02	O ran cyfleusterau glanweithiol dros dro, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau eu bod yn cael eu gwasanaethu'n barhaus drwy gydol y digwyddiad fel eu bod mewn cyflwr defnyddiadwy ar bob adeg pan fydd y cyngor angen iddynt fod ar gael.
SF03	O ran cyfleusterau glanweithiol dros dro, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod carthffosiaeth yn cael ei gwaredu mewn ffordd hylan a phriodol ar ddiwedd y digwyddiad neu fel y bo'r angen.

ST SEDDAU

ST01	Mewn unrhyw ran o'r safle a ddefnyddir yn rheolaidd ar gyfer cynulleidfa sy'n eistedd mewn seddau sy'n agos i'w gilydd, bydd yr holl seddau wedi'u cysylltu'n gadarn â'r llawr. Mewn safleoedd na chânt eu defnyddio mor rheolaidd, bydd cadeiriau, os cânt eu darparu, yn cael eu cysylltu â'i gilydd yn gadarn mewn hydoedd o ddim llai na phedair cadair a dim mwy na deuddeg cadair pryd bynnag y disgwylir cynulleidfa o fwy na 200 o bobl. Bydd deuddeg modfedd o leiaf rhwng cefn un sedd a blaen yr un y tu ôl iddi, a fesurir yn berpendicwlar, mewn safle a adeiladwyd cyn 4 Hydref 2948; ni fydd y gofod yn llai na hwnnw a ganiateir gan yr Awdurdod Trwyddedu. Ac eithrio gyda chaniatâd yr Awdurdod Trwyddedu, ni chaiff unrhyw sedd fod 4 metr o ale. Bydd unrhyw seddau a dodrefn a glustogwyd sy'n cael eu prynu, eu darparu neu eu hamnewid yn ystod cyfnod y drwydded yn bodloni'r Safon Brydeinig gyfredol. Bydd yr holl seddau a dodrefn a glustogwyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac mewn cyflwr da.
------	--

SM ARDALOEDD YSMYGU

SM01	<p>Ardaloedd ysmegu dynodedig o fewn cwrtil safle. Bydd yr ardal ysmegu'n cael ei monitro'n barhaus gan o leiaf (rhowch y rhif) o staff drws sydd wedi'u cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) neu</p>
	<p>gynllun achredu arall a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ystod (rhowch yr oriau) o'r gloch. Ni chaniateir mwy na (rhowch y nifer meddiannaeth) o bobl yn yr ardal hon; bydd hyn yn cael ei fonitro trwy (rhowch y dull monitro niferoedd meddiannaeth) o (rhowch y manau lle y bwriedir ymgymryd â'r gwaith monitro). Bydd y niferoedd a'r lleoliad yn cael eu monitro'n barhaol gan staff drws sydd wedi'u cofrestru gyda SIA neu gynllun achredu arall a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu a leolir yn (nodwch y man lle y gall staff drws ymgymryd â'r ddyletswydd hon).</p>
SM02	<p><i>Mae'r amod hwn wedi'i fwriadu ar gyfer safleoedd problemus lle y ceir ardaloedd ysmegu allanol y gellid ystyried eu bod yn achos pryder posibl</i></p> <p>Pan fydd ardaloedd ysmegu o fewn cwrtilau safleoedd yn ymylu ar ardaloedd y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ystyrir y bydd yr amod canlynol yn briodol.</p> <p>(a) Bydd rhwyd, rhwyll neu sgrin ddiogelwch (o drwch sy'n bodloni gofynion y rheol 50% ar gyfer wal man amgaeedig o dan ddeddfwriaeth ysmegu) yn cael ei gosod a'i chynnal a'i chadw er mwyn atal gwrthrychau rhag cael eu trosglwyddo o'r tu allan i'r ardal ysmegu.</p> <p>(b) Ni chaniateir mynd â diod feddwol i'r llwybrau mynediad sy'n arwain at yr ardal ysmegu ac oddi mewn iddi.</p> <p>(c) Bydd unrhyw storfeydd poteli neu finiau sydd wedi'u lleoli ger cyfleuster ysmegu allanol wedi'u hamgáu a'u cloi.</p> <p>(ch) Ni chaniateir unrhyw ddodrefn yn yr ardaloedd allanol, ac eithrio cynwysyddion priodol a osodwyd ar y wal ar gyfer deunyddiau gwastraff tybaco.</p> <p>(d) Bydd goleuadau PIR yn cael eu gweithredu a'u cynnal mewn ardaloedd mynediad cyhoeddus y tu allan i'r ardal ysmegu er mwyn tynnu sylw at unigolion sy'n symud o gwmpas y tu allan i'r ardal ysmegu.</p> <p>(dd) Ystyrir bod cyfrifiadau yn ymwneud â'r ardal ysmegu yn ffurfio rhan o'r drwydded safle.</p> <p>(e) Bydd yr ardal ysmegu'n cael ei glanhau'n drylwyr, ei goleuo'n ddigonol a'i phaentio mewn modd sy'n dangos yn eglur mai hon yw'r ardal ysmegu.</p> <p>(f) Bydd llawr yr ardal ysmegu'n wastad.</p> <p>(ff) Bydd nifer ddigonol o flychau llwch a osodwyd ar y wal yn cael eu darparu yn yr ardal ysmegu.</p> <p>(g) Cyfarwyddir staff i lanhau sbwriel cysylltiedig ag ysmegu o'r ardal ysmegu a phalmentydd cyfagos cyn ac ar ôl pob cyfnod defnyddio.</p>

SX EFFEITHIAU ARBENNIG, HYRWYDDIADAU GWREIDDIOL A HYRWYDDIADAU UNTRO

SX01	<p>(a) Bydd yr holl effeithiau arbennig, offer a gosodiadau mecanyddol yn cael eu dewis, eu trefnu, eu storio a'u defnyddio mewn modd sy'n lleihau unrhyw risg i ddiogelwch y gynulleidfa, y perfformiad a'r staff gymaint â phosibl. Mae'n rhaid i hyn fod ar sail asesiad risg ysgrifenedig.</p> <p>(b) Mae 'effeithiau arbennig' yn cynnwys: Peiriannau iâ sych, peiriannau niwl cryogenig, peiriannau mwg ac unrhyw fath arall o gynhyrchwyr niwl, pyrotechneg gan gynnwys tân gwyllt, ffrwydron a sylweddau tra fflamadwy eraill, fflamau go iawn, arfau tanio, cerbydau modur, goleuadau strôb, laserau, ewyn, ac unrhyw fath arall o effaith anarferol neu wreiddiol.</p> <p>(c) Yn ogystal, mae'n rhaid ceisio caniatâd ysgrifenedig gan yr awdurdod trwyddedu <u>cyn</u> defnyddio unrhyw un o'r uchod – am y tro cyntaf ac ar ôl i</p>
	newidiadau sylweddol gael eu gwneud i'r lleoliad, y defnydd o'r effaith neu'r offer ei hun.
SX02	Ni chaniateir defnyddio tân gwyllt awyr agored na mathau eraill o byrotechneg ac eithrio gyda chaniatâd o flaen llaw gan un o swyddogion y Tîm Rheoli Llygredd.
SX03	Bydd asesiad risg cofnodedig o ddigwyddiadau 'adloniant' untro neu hyrwyddol yn cael ei gynnal gan reolwyr y lleoliad a bydd y cyfryw asesiad risg ar gael ar gais gan un o swyddogion awdurdodedig y cyngor neu'r Heddlu. Rhoddir gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu am ddigwyddiadau hyrwyddol neu untro o leiaf fis cyn y digwyddiad arfaethedig.
SX04	Defnydd o'r safle gan drydydd partion. Pan fydd modd i'r safle, neu rannau o'r safle, gael eu hurio gan drydydd partion neu eu defnyddio gan hyrwyddwyr digwyddiadau, mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded safle sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith a fydd yn sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, bod y trydydd parti'n ymwybodol o'r amodau trwyddedu a bod ganddo ei weithdrefnau / trefniadau ei hun a fydd yn sicrhau nad yw'r amcanion trwyddedu'n cael eu peryglu.
SX05	Ac eithrio lle y caniateir hynny'n benodol, ni cheir defnyddio laserau, effeithiau sy'n cynhyrchu mwg, sioeau goleuadau (goleuadau strôb) na phyrotechneg ar unrhyw adeg pan fydd gweithgarwch trwyddedadwy'n cael ei gynnal.
SX06	Ac eithrio lle y caniateir hynny'n benodol, ni cheir dod â ffrwydron na sylweddau tra fflamadwy i'r safle na'u defnyddio ynddo ar unrhyw adeg pan fydd gweithgarwch trwyddedadwy'n cael ei gynnal.
SX07	Perfformiadau. Ni ddylai unrhyw berfformiad lle y gallai fod risg o anaf o dân; pobl neu wrthrychau sy'n cwmpo; ardrawiad; offer symudol; anifeiliaid neu unrhyw ffynhonnell arall gael ei gynnal yn y lleoliad oni bai y'i gwneir yn ddiogel a heb risg i'r cyhoedd. Mae'n rhaid penderfynu ar fesurau rheoli ar sail asesiad risg ysgrifenedig, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 14 diwrnod cyn y digwyddiad. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi caniatâd ysgrifenedig cyn y gall y perfformiad fynd yn ei flaen.

SX08	Oni bai y ceir caniatâd penodol yr Awdurdod Trwyddedu ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cyfryw ganiatâd, ni chaiff unrhyw unigolyn roi unrhyw arddangosfa, arddangosiad na pherfformiad yn y safle (heblaw fel y darperir ar ei gyfer yn Adran 5 Deddf Hypnotiaeth 1952) o hypnotiaeth, mesmeriaeth na gweithred neu broses debyg sy'n cynhyrchu unrhyw fath o gwsg neu lesmair cymelledig mewn unrhyw unigolyn sy'n cynyddu, neu sydd wedi'i fwriadu i gynyddu, tueddiad meddwl yr unigolyn hwnnw o dderbyn awgrym neu gyfarwyddyd.
------	---

TL TELEFFON

TL01	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y goruchwyliwr safle dynodedig, neu ddirprwy enwebedig yn ei absenoldeb, yn darparu defnydd dirwystyr o deffon yn y safle i'w ddefnyddio mewn argyfwng, tra bod adloniant gweithgarwch trwyddedadwy'n cael ei gynnal. Mewn safle lle nad oes ffôn wedi'i osod yn barhaol, mae'n rhaid sicrhau bod ffôn symudol ar gael.
------	---

TR HYFFORDDIANT

TR01	Bydd deiliad y drwydded safle'n darparu hyfforddiant i'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl ffyrdd i mewn ac allan a'r gweithdrefnau priodol yn achos unrhyw argyfyngau sy'n golygu bod angen gwacáu'r safle ar unwaith. Bydd cofnod o'r hyfforddiant yn cael ei gynnal a bydd ar gael ar gais gan aelodau awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.
TR02	Mae'n rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant ar werthiannau dan oed, a dylai hyfforddiant o'r fath gael ei ddiweddarau fel y bo'r angen a phan fydd deddfwriaeth yn newid, a dylai gynnwys hyfforddiant ar sut i wrthod gwerthu i gwsmeriaid anodd.
TR03	Bydd cofnod o'r holl hyfforddiant staff yn cael ei gynnal yn y safle ac ar gael yn syth ar gais gan un o swyddogion awdurdodedig y cyngor neu'r Heddlu. Dylai'r dogfennau yn ymwneud â hyfforddiant ymestyn yn ôl tair blynedd a dylent nodi'r amser, y dyddiad a manylion y bobl a ddarparodd ac a dderbyniodd yr hyfforddiant.

VN AWYRU

VN01	Bydd holl rannau'r safle trwyddedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yn cael eu hawyru'n effeithiol ac yn briodol gan swm digonol o awyr iach neu awyr wedi'i buro. Bydd yr aer yn y safle'n cael ei gynnal ar dymheredd rhesymol a chyfforddus yn syth cyn i'r safle gael ei ddefnyddio gan gwsmeriaid ac yn ystod y cyfnod hwnnw. Dylid ceisio cyfarwyddyd ar hyn yng Nghyfarwyddyd B 'Gwresogi, Awyru, Aerdymheru a Rheweiddio' a gyhoeddwyd gan CIBSE (Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu) neu unrhyw ddogfen sy'n ei ddisodli.
------	--

WM RHEOLI GWASTRAFF / AROGLEUON

WM01	Ni chaniateir i unrhyw sbwriel hylosg, baw, deunydd dros ben na nwyddau wedi'u storio gronni mewn unrhyw ran o'r safle ac eithrio mewn man priodol ac yn y fath symiau fel nad ydynt yn achosi niwsans, rhwystr na pherygl diogelwch arall.
WM02	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod mesurau digonol ar waith i atal arogleuon rhag cael eu rhyddhau o'r safle. Mae hyn yn cynnwys arogleuon o baratoi bwyd a storio sbwriel.
WM03	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod mesurau digonol ar waith i waredu sbwriel neu wastraff sy'n cael ei greu gan ei gwsmeriaid ac i atal sbwriel o'r fath rhag cronni yng nghyffiniau'r safle. Yn arbennig, lle y bo'r angen, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod mesurau digonol ar waith i ddarparu digon o gynwysyddion er mwyn i gwsmeriaid waredu deunyddiau gwastraff fel pecynnau bwyd, cynwysyddion diodydd, sbwriel cysylltiedig ag ysmegu, ac ati.
WM04	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod nifer ddigonol o gynwysyddion addas wedi'u lleoli mewn mannau priodol er mwyn i gwsmeriaid waredu deunyddiau gwastraff fel pecynnau bwyd, cynwysyddion diodydd, sbwriel cysylltiedig ag ysmegu, ac ati.
WM05	Bydd deiliad y drwydded safle, y goruchwyliwr safle neu'r rheolwr digwyddiad yn sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i gael gwared â sbwriel neu wastraff sy'n cael ei greu gan gwsmeriaid ac atal sbwriel o'r fath rhag cronni yng nghyffiniau'r safle neu safle cyfagos.
WM06	Bydd nifer ddigonol o gynwysyddion gwastraff yn cael eu darparu at ddefnydd cwsmeriaid mewn mannau y cytunwyd arnynt gyda'r Awdurdod Trwyddedu, a'r trwyddedai fydd yn gyfrifol am wacáu'r rhain a gwaredu'r sbwriel a gasglwyd ar amllder i'w gytuno gyda'r Awdurdod Trwyddedu.
WM07	Bydd gweithgareddau'n ymwneud â gwaredu (gan gynnwys gosod mewn cynwysyddion allanol) a chasglu gwastraff, poteli a deunyddiau y gellir eu hailgylchu ar y safle, yn cael eu cynnal rhwng (rhowch yr oriau a'r diwrnodau fel y bo'r angen) yn unig.
WM08	Bydd sbwriel, poteli a deunyddiau y gellir eu hailgylchu'n cael eu casglu ar (rhowch yr oriau a'r diwrnodau fel y bo'r angen) yn unig.
WM09	Bydd gweithgareddau'n ymwneud â danfoniadau'n cael eu cynnal rhwng (rhowch yr oriau a'r diwrnodau fel y bo'r angen) yn unig.

WM10	<p>Ni chaniateir i arogleuon o unrhyw ffliw sy'n gwasanaethu'r adeilad a ddefnyddir i wasgaru arogleuon coginio achosi niwsans i feddianwyr unrhyw eiddo yn y cyffiniau.</p> <p>Argymhelliad:</p> <p>Argymhellir bod unrhyw ffliwiau ar gyfer gwasgaru arogleuon coginio naill ai'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Terfynu o leiaf 1 fetr yn uwch na chrib unrhyw adeilad yn y cyffiniau, heb rwystro symudiad aer i fyny; neu'n (b) Defnyddio dull rheoli arogleuon fel hidlwyr carbon actifedig, gwaddodiad electrostatig neu ocsideiddio uniongyrchol. <p><i>Gellir cael cyfarwyddyd ar yr uchod yn 'Cyfarwyddyd ar Reoli Arogleuon a Sŵn o System Wacáu Cegin Fasnachol' a gyhoeddwyd yn electronig gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Cod Cynnyrch PB10527.</i></p> <p>http://www.defra.gov.uk/environment/noise/research/kitchenexhaust/pdf/kitchenreport.pdf</p>
WM11	Bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod yr holl becynnu a ddarperir gyda chludfwyd wedi'i farcio mewn rhyw ffordd i ddangos ei darddle.
WM12	Bydd dŵr brwnt a gynhyrchir yn sgil gweithredu'r safle'n cael ei waredu mewn modd priodol.
WM13	Pan fydd safle, h.y. uned symudol, yn cael ei symud o safle'n rheolaidd, bydd deiliad y drwydded safle'n sicrhau bod y safle'n cael ei lanhau'n briodol a bod unrhyw groniadau sailm arwyneb yn cael eu glanhau'n briodol a'u gwaredu o'r safle.